Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YMATEB LLYWODRAETH CYMRU
# I ADRODDIAD BLYNYDDOL
# COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2013-14

**Tachwedd 2014**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2013-14**

**Rhagair gan y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

Pleser o'r mwyaf yw cael ymateb i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant unwaith eto.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r adroddiad ac rydym yn gwerthfawrogi gwaith y Comisiynydd Plant yn fawr. Credaf fod ei adroddiad yn darparu ffocws realistig a heriol ar y materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Rwy'n hyderus ein bod wedi darparu ymateb llawn a manwl i'r materion a godwyd gan y Comisiynydd yn ei adroddiad. Mae'n amlwg hefyd fod y Comisiynydd yn cydnabod y gwahaniaethau cadarnhaol mae'r Llywodraeth hon wedi'u gwneud i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru a sut rydym yn parhau i gynnwys hawliau plant yn ein holl bolisïau a deddfwriaeth. Er mwyn cryfhau'r ymrwymiad hwn, ym mis Mai eleni cafodd y gofyniad i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ei ymestyn i holl swyddogaethau Gweinidogion.

Mae gan y Llywodraeth weledigaeth glir ar gyfer plant – rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae hawliau plant yn cael eu gwireddu i bob plentyn. Dyna pam rydym yn rhoi cymaint o bwyslais ar yr CCUHP. Rhaid i blant gael y canlynol: diogelwch, mynediad at addysg dda, cartrefi da, gofod i chwarae, parch, llais a pheidio â bod o dan anfantais yn sgil tlodi neu'r ardal lle maent yn byw.

Mae adroddiad y Comisiynydd yn cyfeirio at 2013/14 ac, fel yn y blynyddoedd a fu, rwy'n falch o allu dweud ein bod wedi mynd i'r afael â nifer o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad. Rwy'n sicr y bydd ein hymateb yn rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei adroddiad yn bwysig a'n bod wedi ymrwymo'n barhaus i weithredu'r CCUHP yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod ni fel Llywodraeth yn parhau i gydnabod bod mwy o waith i'w wneud.

Diolch i Gomisiynydd Plant Cymru am ei adroddiad blynyddol ac rwy'n cydnabod y rôl allweddol sydd ganddo yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Gan mai dyma adroddiad olaf Keith yn ei rôl fel Comisiynydd, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddo am ei ymrwymiad a'i ymroddiad yn ystod ei saith mlynedd wrth y llyw.

## NOD CRAIDD 1: DECHRAU TEG MEWN BYWYD

**Plant i droseddwyr**

**Mae plant sydd â charcharor yn y teulu'n fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac mewn risg uwch o brofi canlyniadau emosiynol, cymdeithasol ac addysgol gwael. Y llynedd, ymwelodd y Comisiynydd â charchardai ac ysgolion i siarad gyda rhieni ac athrawon. Bu'n hybu prosiectau trydydd sector sydd â'r nod o gefnogi plant i droseddwyr a datblygodd ei dîm adnodd ar hawliau plant i droseddwyr.**

**Mae'r Comisiynydd yn falch, yn dilyn ei adroddiad blynyddol yn 2012/13, fod Llywodraeth Cymru nawr wedi cytuno i osod mesurau i sicrhau bod eu prif raglenni'n ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garcharu rhiant. Mae'r Comisiynydd:**

**-yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi plant i droseddwyr.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant sy'n cael eu heffeithio gan garchariad rhiant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Byddai pob teulu sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac sy'n gymwys i dderbyn cymorth yn gallu gwneud hynny. Byddai hyn yn cynnwys teuluoedd sydd â rhiant yn y carchar.

Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw pob teulu sy'n cael eu heffeithio yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae elfen fach o gyllideb Dechrau'n Deg yn cael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau allgymorth. Cyhoeddwyd canllawiau ym mis Medi 2014 yn amlinellu'r egwyddorion a'r paramedrau ar gyfer defnyddio cyllid allgymorth. Mae hyn yn cynnwys galluogi timau Dechrau'n Deg i dargedu plant o gymunedau buddiant penodol yn eu hawdurdod lleol – mae menywod sydd yn y carchar yn cael eu nodi fel enghraifft o gymuned o'r fath.

O fewn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi mae'r rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn ceisio sicrhau canlyniadau gwell i blant drwy fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y teulu, gan edrych ar anghenion yr uned deuluol, yn hytrach na dim ond y plentyn ei hun. Mae natur y rhaglen Dechrau'n Deg yn galluogi awdurdodau lleol i gomisiynu prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion a nodwyd yn eu hardal leol a allai gynnwys darparu cymorth i blant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garchariad rhiant.

Ym mis Medi 2014, cyhoeddom 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth' i'r rhai sy'n comisiynu, rheoli a darparu cymorth ar gyfer rhianta. Mae Adran 8 y ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth a strategaethau ar gyfer gweithio gyda theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garchariad rhiant.

Rydym newydd gyhoeddi dogfen ganllaw ategol ar rianta ar gyfer Dechrau'n Deg yn cyfeirio awdurdodau lleol at 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth' sy'n rhoi gwybodaeth am weithio gyda theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garchariad rhiant.

---

## Cymorth cyffredinol i rieni

**Mae rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd pob plentyn. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni pwysig sy'n hyrwyddo llesiant plant ac yn darparu cymorth i rieni mewn grwpiau penodol neu mewn lleoliadau penodol. Roedd y Comisiynydd yn falch i weld bod y rhaglen Gwasanaethau Cymorth Teuluol Integredig wedi'i chyflwyno ar draws pob rhan o Gymru y llynedd. Cafodd Dechrau'n Deg hefyd ei hehangu i gwmpasu rhagor o ardaloedd yng Nghymru.**

**Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn parhau'n awyddus i sicrhau y dylai'r holl rieni a gofalwyr allu manteisio ar gymorth ac arweiniad. Mae cymorth cyffredinol i rieni yn unol ag Erthygl 31 y CCUHP, sy'n egluro hawl plentyn i orffwys, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol ac artistig. Mae hefyd yn cyd-fynd â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac â dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gymryd camau i atal a lleihau'r anghenion gofal a chymorth sydd gan bobl yn eu hardal o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Comisiynydd:**

**-yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi arweiniad ar gymorth cyffredinol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Ar 10 Medi cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gynorthwyo'r rhai sydd â rôl uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y gwaith o ddarparu cymorth i rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb i sicrhau hynny. Yn dwyn y teitl, 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth', mae'r ddogfen yn ceisio cynorthwyo awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector a chomisiynwyr, rheolwyr ac ymarferwyr perthnasol eraill i wneud penderfyniadau am:

- y math o gymorth i'w ddarparu i rieni a sut i'w ddarparu;
- dulliau o gefnogi ac ymgysylltu â rhieni;
- datblygu'r gweithlu;
- prosesau asesu;
- gwerthuso a monitro.

Mae copi o'r canllawiau hyn yn:

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting-support-guidance/?skip=1&lang=cy

Cyhoeddwyd Canllawiau Rhianta i ymarferwyr Dechrau'n Deg ar 30 Medi i ddatblygu elfen rianta'r rhaglen a sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu i rieni Dechrau'n Deg. Gallwch weld copi yma:

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy

**AMCAN CRAIDD 2: AMRYWIAETH O GYFLEOEDD ADDYSG, HYFFORDDIANT A DYSGU**

**Amrywiaeth o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu**

**Eleni, mae'r Comisiynydd wedi cael ei hysbysu am bryderon mewn perthynas â diffyg mynediad mewn rhai ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn, er ei bod yn ofynnol i bob ysgol fod â chynllun hygyrchedd. Gall hyn olygu bod plant yn gorfod mynychu ysgol wahanol i'w ffrindiau, a all effeithio ar y plentyn ac ar y teulu. Bydd yn gwneud darn o waith ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gweithredu a gwella yn hyn o beth. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i gael gafael ar addysg.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi strategaeth hygyrchedd a dyletswydd ar gyrff cyfrifol ysgolion i baratoi cynllun hygyrchedd. Pwrpas strategaeth hygyrchedd yw:

- Cynyddu gallu disgyblion anabl i fanteisio ar gwricwlwm yr ysgol;
- Gwell amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu gallu disgyblion anabl i wneud y defnydd gorau o'r cyfleodd sydd ar gael yn yr ysgol; a
- Gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth hygyrch.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi strategaethau ar waith ar ôl ystyried anghenion a dymuniadau'r disgyblion a fynegir ganddynt hwy a'u rhieni. Dylid adolygu'r strategaethau'n rheolaidd a'u diwygio os oes angen (fodd bynnag, nid oes amserlen benodol ar gyfer gwneud hyn).

Mae ysgolion yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau hygyrchedd ysgrifenedig a fydd yn cynyddu gallu disgyblion anabl i fanteisio ar gwricwlwm yr ysgol, gwella'r amgylchedd ffisegol i ddisgyblion anabl a gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth iddynt. Mae'n rhaid i ysgolion roi cynlluniau ar waith ar ôl ystyried anghenion a dymuniadau'r disgyblion a fynegir ganddynt hwy a'u rhieni.

Dylid adolygu'r strategaethau a'r cynlluniau'n rheolaidd a'u diwygio os oes angen. Mae'n rhaid i awdurdod lleol neu ysgol ystyried yr angen i ddyrannu adnoddau digonol ar gyfer eu gweithredu. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfarwyddo os ydynt yn ystyried bod ysgol neu awdurdod lleol wedi methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn neu wedi gweithredu'n afresymol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.

Nid gofynion newydd yw'r rhain. Fe'u cyflwynwyd i ddechrau yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2001 a'u codi, heb eu newid i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddisodlodd lawer iawn o offerynnau deddfwriaethol. Cyhoeddwyd canllawiau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru – 'Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad' – yn 2004.

Mae'r ymagwedd hon at gynllunio yn gofyn i ysgolion ac awdurdodau lleol ymateb i'r her o wella hygyrchedd adeiladau ysgolion mewn ffordd strategol, a weithredir fesul cam.

Dylai ein rhaglen cyllid cyfalaf i ysgolion (Ysgolion yr 21ain Ganrif) sicrhau y bydd pob adeilad ysgol newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu o dan y rhaglen yn hygyrch ond mae yna rai problemau o hyd gyda rhai o'r hen adeiladu.

Mae pob llythyr cytundeb ar gyfer cyllid cyfalaf yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â phob deddfwriaeth, yn cynnwys deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae pob llythyr cytundeb hefyd yn cynnwys cymal ar gyfle cyfartal, er mwyn i'r ysgol fel darparwr gwasanaethau beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail rhyw, hil, anabledd a materion eraill sy'n dod o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Yn 2007, cynhaliodd Estyn adolygiad yn edrych ar y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) ac Arfer Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol wrth weithredu'u dyletswyddau gan ganfod bod "dyluniad, arwyddocâd pensaernïol ac oed rhai adeiladau ysgol, yn enwedig mewn ysgolion gwledig bach, yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparu mynediad llawn i bob disgybl mewn ysgolion gerllaw maent yn byw. Mae pob un o'r awdurdodau addysg lleol bron wedi ceisio goresgyn y broblem hon drwy addasu a darparu adnoddau ar gyfer un ysgol uwchradd ac o leiaf un ysgol gynradd ym mhob ardal i ddarparu ar gyfer disgyblion anabl. Mae'r dull hwn yn helpu awdurdodau i dargedu eu hadnoddau'n effeithlon, ond effaith hyn yw cyfyngu ar ddewis y rhieni".

Cynhaliodd Estyn adolygiad o Gynlluniau ac Arfer Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion yn 2011 a ddaeth i gasgliad cadarnhaol cyffredinol ynglŷn â chynnydd ysgolion. Efallai mai'r rheswm am hyn, yn rhannol, yw bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau plant yn eu hysgolion, a oedd yn colli'r safbwynt y gallai eu dewis o ysgol leol, a'r profiad pontio, fod wedi'i gyfyngu'n sylweddol gan ffactorau mynediad. Roedd adolygiad 2011 hefyd yn cwmpasu profiad anabledd yn ei gyfanrwydd ac yn edrych ar faterion fel bwlio, trefniadaeth yr ysgol ac addasiadau fel defnyddio cynorthwywyr addysgu ychwanegol a gwahaniaethu yn y cwricwlwm.

Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol hefyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i beidio trin plant a phobl ifanc anabl yn llai ffafriol, i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i'w cynorthwyo ac i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn rhoi hawl i rieni gyflwyno hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion ar ran eu plentyn, i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Mae Mesur Addysg Cymru 2009 yn gwneud darpariaeth i blant Cymru gael yr un hawliau â rhieni i apelio mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r hawl i gyflwyno hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion, i'r TAAAC eu hunain. Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithredu'r hawliau newydd hyn.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r hawliau a'r dyletswyddau newydd o dan y Mesur wedi'u treialu mewn dwy ardal awdurdod lleol, sef Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r treialu hwn gan gyhoeddi adroddiad ar 26 Mehefin. Yn sgil y canfyddiadau cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r hawliau a'r dyletswyddau ledled Cymru ym mis Ionawr 2015. Tan hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod

ganddynt y wybodaeth, y canllawiau a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau a roddir arnynt.

---

**Llesiant Dysgwyr**

**Y llynedd cyhoeddwyd nifer o adroddiadau dylanwadol ar y system addysg yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys Adolygiad Hill ar gyflwyno gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol a chyhoeddi canlyniadau PISA 2012. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddatblygu cynllun gwella ysgolion newydd, gan ddatblygu llawer o'r opsiynau a dderbyniwyd yn Adolygiad Hill.**

**Mae'r Comisiynydd yn cefnogi ffocws y llywodraeth ar gyrhaeddiad dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n awyddus i sicrhau na ddylai hyn ddigwydd ar draul llesiant dysgwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r dystiolaeth a ddangoswyd iddo yn awgrymu os ydym ni'n methu mynd i'r afael â llesiant dysgwyr byddwn ni'n methu â chynorthwyo rhai o'n plant mwyaf difreintiedig i gael y graddau sydd o fewn eu cyrraedd. Mae'r Comisiynydd yn annog y llywodraeth i ystyried sut y gallai gwell cefnogaeth i lesiant disgyblion ategu mesurau eraill sy'n cael eu datblygu dan y cynllun gwella ysgolion. Hoffai weld sylw dyledus i lesiant disgyblion fel rhan o'r polisi cenedlaethol a'r gyrwyr perfformiad.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori llesiant disgyblion yn ei chynllun gwella ysgolion a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y polisi cenedlaethol a'r gyrwyr perfformiad.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

<u>Cwricwlwm – Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) - Lles</u>

Mae'r Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn ganolog i'r Cyfnod Sylfaen. Mae plant yn dysgu am eu hunain, eu perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a thu hwnt, diwylliant unigryw Cymru a diwylliannau eraill sy'n rhan o gymdeithas unigryw Cymru. Cânt eu cynorthwyo hefyd i ddatblygu dealltwriaeth o bwy ydyn nhw ac ymdeimlad o berthyn. Mae plant yn elwa ar brofiadau dysgu sy'n eu hannog i gymryd rhan ac sy'n ddifyr yn ogystal â'u cefnogi i wneud penderfyniadau, datblygu agwedd gadarnhaol ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mae lles yn rhan annatod o ddysgu ac yn gysylltiedig ag anghenion sylfaenol plant am ddiogelwch, bwyd a chysgod, cynhesrwydd a chariad, a'r graddau mae plant yn gyffyrddus gyda'u hunain a'u hamgylchedd. Cydnabyddir erbyn hyn bod lles yn hanfodol er mwyn bod yn ddysgwr effeithiol. Wrth i ddysgwyr cynnydd ac adeiladu ar y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd, gwybodaeth a dealltwriaeth y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen, drwy'r Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru.

Drwy'r thema Iechyd a Lles Emosiynol, gellir helpu dysgwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad, a gwybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Gellir cynorthwyo dysgwyr i archwilio eu teimladau hefyd, datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch a'u dysgu ble a sut i gael gafael ar wybodaeth bersonol a chymorth.

Mae ABCh yn paratoi plant a phobl ifanc i fod yn fwy hyddysg, hyderus a medrus fel y gallant ymwneud yn effeithiol ag eraill a chymryd rhan weithredol a chyfrifol mewn cymdeithas.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Mae sicrhau gwelliannau ac effeithiolrwydd mewn ysgolion yng Nghymru yn seiliedig ar ffocws cryf ar hunanwerthuso, her a chymorth mewn ysgolion. Un o'r prif ffynonellau gwybodaeth am berfformiad yw Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiadau o berfformiad yn ôl rhyw yn y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol, lefelau absenoldeb a data cyd-destunol am gefndir ethnig disgyblion, nifer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a nifer y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn sgil y rhain gall ysgolion weld sut mae gwahanol gategorïau o ddisgyblion yn cyflawni a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w datblygu.

Mae data ar berfformiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys cyrhaeddiad disgyblion mewn 'Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol'. Mae data presenoldeb yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol hefyd.

Categoreiddio

O dan y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion newydd sy'n cwmpasu ysgolion cynradd, un o'r mesurau yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Bydd y System newydd yn cwmpasu ysgolion cynradd ac uwchradd ac yn seiliedig ar dri cham a fydd yn golygu cydweithio rhwng y consortia a Llywodraeth Cymru. Bydd y system newydd yn asesu ysgolion yn y meysydd canlynol:

- Amrywiaeth o fesurau perfformiad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru;
- Hunanwerthusiad cadarn gan ysgolion ar eu gallu i wella mewn perthynas ag arwain, dysgu ac addysgu;
- Cadarnhad o hunanwerthusiad yr ysgol gan Gynghorwyr Her y consortia addysg.

Cwnsela mewn ysgolion

Mae Adran 93 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gasglu data dienw am y gwasanaeth cwnsela mae'r awdurdod yn ei ddarparu a chyflwyno'r data hwnnw i Weinidogion Cymru yn unol â'r cyfarwyddyd. Daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 1 Ebrill 2013 a chyflwynwyd Hysbysiad o Gyfarwyddyd i awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2013.

Data cyfanredol dienw yw'r data a ddarperir, sy'n cyflwyno darlun o'r materion allweddol sy'n destun pryder i blant a phobl ifanc sy'n gofyn am wasanaeth cwnsela, yn ogystal â gwybodaeth ddemograffig am y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Bydd

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi rhai o'r canfyddiadau data i roi darlun cenedlaethol ddechrau 2015. Fodd bynnag, nid yw'r data yn cael ei gasglu ar lefel ysgol, ac ni fyddai'n briodol cyhoeddi unrhyw ddata ar lefel awdurdod lleol, gan y gallai hyn arwain at wybod pwy yw'r disgyblion unigol sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth cwnsela.

Gwrthfwlio

Rydym hefyd yn canolbwyntio gwaith polisi ac adnoddau i sicrhau bod negeseuon gwrthfwlio'n cael eu lledaenu'n amlach ac yn fwy effeithiol. Y nod yw helpu i sicrhau bod ysgolion yn parhau i ganolbwyntio ar eu strategaethau gwrthfwlio a sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn fwy ymwybodol o ble y gallent gael cyngor a chymorth. Byddwn yn annog ysgolion i fonitro a mynd i'r afael â bwlio, yn cynnwys nodi arferion da o ran monitro bwlio, i'w rhannu gyda rhanddeiliaid.

Drwy gynorthwyo plant a phobl ifanc gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiad, gallwn eu helpu i ymroi i'w haddysg.

---

**NOD CRAIDD 3: MWYNHAU'R IECHYD MEDDWL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL GORAU POSIBL**

**Eiriolaeth Annibynnol**

**Mae'r Comisiynydd yn datgan nad yw'r hawl statudol i eiriolaeth yn gwarantu bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol o ansawdd uchel ar gael. Amlygwyd hyn yn ei adroddiad "Lleisiau Coll" yn 2012 ac eto yn ei adroddiad "Lleisiau Coll: Cynnydd Coll" yn 2013. Mae'r Comisiynydd wedi parhau i bwyso am roi'r argymhellion a wnaeth yn "Lleisiau Coll" ar waith, ac wedi'i siomi bod cynnydd at gyflawni'r rhain wedi bod yn araf. Roedd yr argymhellion yn ceisio darparu llais i rai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf bregus a fyddai'n cael ei glywed yn glir ac yn helpu i ddiogelu a chyfoethogi eu llesiant.**

**Mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr ymrwymiad deddfwriaethol i eiriolaeth yn cael ei wireddu a bydd y Comisiynydd yn gobeithio y byddai'r rheoliadau a'r canllawiau a fydd yn dilyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sbardun digonol i sicrhau bod plant a phobl ifanc fregus yn cael y gwasanaeth y mae ganddyn nhw hawl iddo.**

**Cyhoeddodd y Comisiynydd ei adroddiad dilynol ar "Lleisiau Coll" ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc fregus sydd â hawl i wasanaethau eiriolaeth yn gwybod am yr hawl hwn, ac yn gallu manteisio ar yr hawl.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r arweiniad strategol angenrheidiol i sicrhau bod darpariaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc berthnasol yn dod yn realiti.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Cyhoeddodd y Comisiynydd Plant ei adolygiad blynyddol diweddaraf o wasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen fel rhan o'i waith craffu parhaus ar a oes trefniadau effeithiol ar gyfer cryfhau a hyrwyddo hawliau a diogelu lles plant a phobl ifanc.

Mae ei adroddiad diweddaraf, *Lleisiau Coll: Yr Hawl i Gael eu Clywed* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, yn parhau i ddangos nad yw rhai o'r plant a phobl ifanc mwyaf bregus yng Nghymru yn ymwybodol o'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol i gynrychioli eu barn. Mae Cymru wedi bod ar y daith eiriolaeth am dros 10 mlynedd yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Waterhouse ac eto mae'r Adroddiad yn dangos nad yw plant a phobl ifanc sydd â hawl i eiriolaeth yn gwybod am yr hawl hwnnw ac felly nid ydynt yn manteisio ar y cyfle i fynnu'r hawl.

Nid yw'r dystiolaeth hon yn cyd-fynd ag arolygiad AGGCC o drefniadau diogelu a chynllunio gofal plant a'r rhai sy'n gadael gofal yn 22 awdurdod lleol Cymru a oedd yn canolbwyntio ar a yw "llais y plentyn" yn cael ei glywed a bod rhywun yn gwrando arno, gan gynnwys ffocws ar y ddarpariaeth eiriolaeth oedd ar gael.

Canfu AGGCC bod plant yn cael eu diogelu'n effeithiol; bod y plant bregus a holwyd yn gwybod am eiriolaeth ac yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth a bod pob awdurdod lleol yn ystyried yr angen i gomisiynu darpariaeth eiriolaeth o ddifrif. Anfonwyd adroddiadau unigol i bob awdurdod lleol a bydd adroddiad trosolwg cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Ym mis Rhagfyr 2013, cyflwynodd y Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth (MEGA) adroddiad i ddarparu cyngor ac argymhellion ar ddatblygiad, ansawdd a darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol arbenigol annibynnol. Sefydlwyd Grŵp Arbenigol Pobl Ifanc i weithredu ochr yn ochr â MEGA.

Yn ddiweddar, cytunodd Gweinidogion i gynnwys y cyfrifoldeb am eiriolaeth fel rhan o bortffolio y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad strategol a threfniadau ysgrifenyddiaeth MEGA a'r Grŵp Pobl Ifanc cysylltiedig; trefniadau ar gyfer llinell gymorth genedlaethol MEIC yn y dyfodol gan egluro rôl MEIC fel rhan o'r ddarpariaeth eiriolaeth genedlaethol yn cynnwys ei rôl fel y llwybr cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth o fewn y fframwaith statudol.

Sefydlwyd Grŵp Arweinyddiaeth Strategol o randdeiliaid allweddol, sy'n cynnwys y Comisiynydd Plant, i nodi dull cydlynol a chynaliadwy o sicrhau hawliau plant i dderbyn eiriolaeth statudol. Mae'r Grŵp, sy'n cynnwys CLILC, ADSS Cymru a Chadeirydd MEGA, wedi cytuno ar gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Comisiynydd a bydd yn darparu dull cenedlaethol cydlynol. Bydd hyn yn arwain at gynllunio, comisiynu a gweithredu darpariaeth eiriolaeth statudol gyson a chydweithredol ledled Cymru.

---

**<u>Y Rhai sy'n Gadael Gofal</u>**

**Mae'r Comisiynydd wedi bod yn pwyso am ragor o gymorth i bobl ifanc sy'n pontio rhwng gofal ac annibyniaeth yn ystod ei gyfnod yn Gomisiynydd. Yn 2011 galwodd ei adroddiad "Ar Goll ar ôl Gofal" am ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth fyddai'n estyn uchafswm yr oed y mae'n rhaid i berson ifanc adael lleoliad maeth neu breswyl o 18 i 21.**

**Parhaodd pobl ifanc i leisio eu pryderon a chynhaliodd y Comisiynydd adolygiad o'r dystiolaeth ar sail yr hyn roedden nhw'n ei ddweud wrtho. Amlinellwyd hyn yn ei bapur briffio i Aelodau Cynulliad ac ymarferwyr, "Bywyd ar ôl Gofal" ym mis Ionawr 2014. Roedd yr astudiaethau achos unwaith eto'n amlygu'r angen am fframwaith deddfwriaethol cadarn sy'n gosod hawliau clir i bobl ifanc a dyletswyddau ar rieni corfforaethol i sicrhau darpariaeth gadarn o gymorth cyson i bobl ifanc ar draws Cymru.**

**Yn ystod y broses o graffu ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roedd y Comisiynydd wrth ei fodd fod grŵp o bobl ifanc oedd yn gadael gofal wedi ffurfio'r ymgyrch ysbrydoledig Cyfle i Aros. Gyda chymorth grwpiau plant yn y trydydd sector, roedden nhw'n galw am newid yn y gyfraith fel bod modd i blant yng Nghymru sy'n derbyn gofal aros mewn gofal maeth tan eu bod yn 21.**

**Mae'r Comisiynydd wrth ei fodd y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant nawr yn galluogi pobl ifanc mewn gofal i barhau i dderbyn cymorth tan eu bod yn 21 oed. Bydd ei swyddfa'n parhau i fonitro cynnydd mewn perthynas â diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal, a bydd yn parhau i ddal Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn atebol.**

**Mae'r Comisiynydd:**
**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn diwallu anghenion gofal a chymorth parhaus yr holl blant sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rheoliadau a chod ymarfer dan Ran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Mae rhan 6 yn cynnwys ystod o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a llety, yn cynnwys dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth benodol ynghylch gofal a chymorth parhaus i'r rhai sy'n gadael gofal, yn cynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal asesiadau a chynlluniau, cadw mewn cysylltiad, cynghorwyr personol, a darparu cymorth ariannol a chymorth arall ar gyfer lles y person ifanc. Mae'r dyletswyddau hyn yn cwmpasu pawb sy'n gadael gofal hyd at 21 oed, a gallant ymestyn i 25 oed yn achos y rhai sydd ym myd addysg neu hyfforddiant.

Egwyddor allweddol sy'n sail i Ran 6 yw bod gan awdurdodau lleol, fel rhieni corfforaethol, ddyletswydd i sicrhau cymorth addas i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt ddod yn oedolion a dechrau byw'n annibynnol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i hwyluso lleoliadau ôl-18 i bobl ifanc sy'n dymuno aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl troi'n 18 oed. O fis Ebrill 2016, pan fydd awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau llwybr pan fo plentyn yn troi'n 16 oed, bydd rhaid iddynt holi a yw'r person ifanc a'i ofalwr maeth am wneud trefniant byw ôl-18 oed. Os ydynt am wneud hynny, bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cyngor a chymorth i hwyluso'r trefniant. Bydd rheoliadau ar ba wybodaeth y dylid ei rhoi i bobl ifanc a gofalwyr maeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus yn cael eu llunio o dan adran 104 y Ddeddf. Bydd y dyletswyddau newydd yn dod i rym o fis Ebrill 2016.

Fodd bynnag, rydym eisoes yn treialu cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' mewn tair ardal awdurdod lleol, a'n bwriad yw cyhoeddi canllawiau diwygiedig i bob awdurdod lleol

ddechrau 2015 er mwyn gallu cyflwyno'r cynllun ledled Cymru. Mae swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi bod yn aelod o Grŵp Monitro y peilot 'Pan Fydda i'n Barod'.

Bydd y grŵp monitro yn cyflwyno ei adroddiad ar y cam arloesi tua diwedd 2014, yna bydd canllawiau 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu diwygio i'w dosbarthu i awdurdodau lleol ddechrau 2015. Mae disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddechrau datblygu a gweithredu'r cynllun yn eu hardaloedd o fis Ebrill 2015, er mwyn iddynt fod yn barod i gyflawni eu dyletswyddau newydd pan ddaw'r Ddeddf i rym y flwyddyn ganlynol. Ein gobaith yw y bydd yr holl bobl ifanc sydd mewn gofal maeth ac sy'n troi'n 18 oed o 2015 ymlaen yn cael y cyfle i aros gyda'u gofalwyr maeth os mai dyma yw eu dymuniad nhw a'u gofalwyr ac mai dyna sydd orau o ran eu lles.

Nid yw'r dyletswyddau newydd yn ymestyn i bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl. Byddwn yn ystyried anghenion llety ac anghenion eraill pobl ifanc mewn llety preswyl wrth i ni ddatblygu'r fframwaith newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal o dan Ran 6 y Ddeddf.

---

## Rheoliadau a Chanllawiau oed-benodol

**Mae'r Comisiynydd yn bryderus iawn nad yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cydnabod amgylchiadau penodol plant a phobl ifanc, egwyddor sy'n gwbl greiddiol i'r CCUHP.**

**Mae'r Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r Ddeddf yn datgan yn glir mai'r effaith a fwriedir i'r ddeddfwriaeth yw 'cyhyd ag y bo'n bosibl, integreiddio a chydweddu trefniadau fel bod set cyffredin o brosesau i bobl'.**

**Nid oes testun ategol i esbonio sut y bydd y newid i Ddeddf sengl i gwmpasu darpariaeth i blant ac oedolion yn sicrhau lles pennaf y plentyn mewn cydymffurfiaeth ag erthygl 3 y CCUHP paragraff 1. Nid oes esboniad chwaith sut y bydd amnewid neu ailddatgan darnau o ddeddfwriaeth gyfredol yn ymwneud â phlant yn hwyluso lles pennaf y plentyn yn well.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu Rheoliadau a Chanllawiau oed-benodol ar wahân dan y darpariaethau a geir yn y Ddeddf gan gynnwys meini prawf a chod ymarfer oed-benodol.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno model newydd o ddarparu gofal a chymorth i holl ddinasyddion Cymru: (oedolion, plant a gofalwyr). Pan ddaw i rym ym mis Ebrill 2016 bydd angen hyrwyddo lles a threfniadau newydd ar gyfer asesu, penderfynu cymhwysedd, a chynllunio gofal a chymorth.

Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar haen gyntaf y rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft ar 6 Tachwedd 2014. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn nodi:

- proses glir ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gefnogaeth yn achos gofalwr;
- un broses asesu a fydd yn berthnasol i bawb – plant, oedolion a gofalwyr;
- fframwaith ar gyfer pennu cymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth (a chefnogaeth i ofalwyr) a drefnir ac a ddarperir gan awdurdod lleol sy'n gyson ledled Cymru ac sy'n berthnasol i blant, oedolion a gofalwyr.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar a yw'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn darparu fframwaith ar gyfer diwallu anghenion plant.

<u>Asesu</u>

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes gan blentyn anghenion gofal a chymorth ac os oes, beth yw'r anghenion hynny. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw blentyn y mae'r awdurdod yn credu y gallai fod angen gofal a chymorth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarperir gan ei deulu ei hun.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn datgan: wrth gynnal yr asesiad bod rhaid i'r awdurdod lleol asesu anghenion datblygu'r plentyn, a cheisio nodi'r canlyniadau y mae'r plentyn am eu cyflawni (i'r graddau mae'n ei hystyried yn briodol gan ystyried oedran a dealltwriaeth y plentyn), a'r canlyniadau y mae'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn dymuno eu sicrhau mewn perthynas â'r plentyn (i'r graddau y mae'n ystyried yn briodol gan ystyried yr angen i hyrwyddo lles y plentyn).

Mae'n rhaid i'r asesiad ei hun fod yn gymesur i angen a chynnwys y plentyn ac unrhyw berson â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n asesu anghenion gofal a chymorth plentyn hyrwyddo magwraeth plentyn gan ei deulu, cyn belled â bod hynny'n gyson â lles y plentyn ac yn achos asesu plentyn o dan 16 oed, cael ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol resymol ac yn gyson â hyrwyddo lles y plentyn.

Mae'r rheoliadau drafft yn nodi bod rhaid i blentyn gael ei weld a'i gadw yn ganolog mewn unrhyw asesiad o anghenion gofal a chymorth plentyn a bod rhaid ystyried safbwynt y plentyn ei hun bob amser. Mae hyn yn cynnwys arsylwi ar y plentyn a siarad ag ef mewn modd sy'n briodol i'w oedran. Mae'n rhaid i'r asesiad hwn fynd i'r afael ag agweddau mwyaf canolog neu bwysicaf anghenion plentyn a gallu ei rieni neu ei ofalwyr i ymateb yn briodol i'r anghenion hynny o fewn y cyd-destun teuluol a chymunedol ehangach.

Mae'r rheoliadau drafft yn datgan mai asesiad yw'r cam cyntaf yn y broses o helpu plentyn a'i/neu ei deulu. Mae ystyriaethau penodol sy'n berthnasol wrth asesu anghenion plant. Mae'n rhaid i'r asesiad ystyried anghenion datblygu'r plentyn, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar les y plentyn. Yn ogystal â chanolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni yn ei fywyd bob dydd, mae'n rhaid i'r asesiad geisio nodi'r canlyniadau y mae'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn ceisio eu cyflawni.

Mae'r cod ymarfer drafft yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant wrth asesu, yn cynnwys datblygu dulliau niferus sy'n briodol ar eu cyfer gan ystyried eu hoedran, rhyw a diwylliant er mwyn medru gwerthfawrogi eu dymuniadau a'u teimladau, a deall ystyr eu profiadau iddynt.

Mae'n rhaid i ddull cofnodi'r asesiad fod yn gymesur i'r angen a nodwyd ac mewn iaith angen, a fformat 'hawdd ei ddarllen' neu fformat arall fel sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r oedolyn sy'n cael ei asesu.

Mae'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft yn disgrifio proses asesu a chynllunio gofal a chymorth sy'n gyson i **bawb** – oedolion, plant a gofalwyr ledled Cymru. Fodd bynnag, mae yna ddarpariaethau penodol i sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn briodol.

Diogelu'r plentyn

Gydol y broses asesu, mae'n rhaid sicrhau diogelwch y plentyn. Dylai pennu a oes achos rhesymol i amau bod plentyn yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, yn cael ei esgeuluso neu mewn perygl o gael ei esgeuluso neu'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef mathau eraill o niwed ac a oes angen cymryd camau brys i sicrhau diogelwch y plentyn fod yn rhan allweddol o'r asesiad. Pan fo achos rhesymol i amau bod plentyn mewn risg mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu ar hyn yn ddi-oed.

Pan fydd yr asesiad yn dangos bod achos rhesymol i amau bod plentyn ag anghenion gofal a chymorth (waeth a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, yn cael ei esgeuluso neu mewn perygl o gael ei esgeuluso neu'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef mathau eraill o niwed, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymchwilio a gwneud ymholiadau i amgylchiadau'r plentyn hwnnw a, phan fo'r ymholiadau yn dangos yr angen, penderfynu pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Bydd yr ymchwiliad yn sail i asesiad manwl o natur anghenion y plentyn a gallu ei rieni i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn y cyd-destun teuluol a chymunedol ehangach. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hamlinellu yn adran 47 Deddf Plant 1989.

Cynllunio gofal a chymorth

Os penderfynir ar ôl yr asesiad bod unigolyn yn gymwys i gael ei anghenion gofal a chymorth wedi'u diwallu gan yr awdurdod lleol a bod angen cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwr, bydd hyn yn cael ei ddatblygu gyda'r unigolyn a'r ymarferwyr sy'n gweithio i gyflawni canlyniadau lles personol yr unigolyn.

Mae'n rhaid i gynllun gofal a chymorth nodi'r canlyniadau personol a'r ffordd orau o'u cyflawni. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn nodi'r canlynol:

- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth i blant ag anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a lle mae'r awdurdod lleol yn credu bod gan y plentyn anghenion sy'n gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w diwallu neu arfer swyddogaeth er mwyn diogelu ac amddiffyn y person rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed a pherygl o gamdriniaeth neu esgeulustod neu niwed.

- Cymhlethdod neu ddifrifoldeb anghenion y plentyn fydd yn penderfynu beth yw cwmpas a manylion y cynllun gofal a chymorth a'r ystod o ymyriadau.

- Pan fo cynllun gofal ar waith eisoes i'r unigolyn sy'n bodloni gofynion cynllun gofal a chymorth gellir ystyried bod hyn yn cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys cynllun gofal teulu lle bo'n briodol.

Cymhwysedd

Mae'r fframwaith cymhwysedd yn sensitif i anghenion, cyd-destunau a chanlyniadau gwahanol plant, oedolion a gofalwyr. Mae'r rheoliadau drafft ar gymhwysedd wedi'u trefnu i nodi'n benodol anghenion sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd plant sydd ag anghenion gofal a chymorth a chymorth os yw'r plentyn yn ofalwr. Mae hyn yn cynnwys nodi a fyddai peidio â diwallu'r angen yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad y plentyn.

Mae'r meini prawf cymhwysedd yn creu prawf cyson i'w roi i'r awdurdod lleol: "Os na ellir diwallu fy angen heb weithredu cynllun gofal a chymorth, mae gen i hawl i'r cynllun gofal a chymorth hwnnw". Er y bydd cynllun gwasanaethau lles yn amrywio ledled Cymru (ac felly y dylai fod), bydd y cynsail ar gyfer unrhyw ddyletswydd gan awdurdod lleol yn parhau yn gyson a bydd hyn yr un mor wir i blentyn ag i oedolyn. Bydd y dull hwn yn lliniaru'r anawsterau cyfredol pan fo plant yn troi'n oedolion ac yn canfod eu hunain yn y canol rhwng dwy system ar wahân.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu o ddioddef unrhyw fath arall o niwed neu fod angen diwallu'r anghenion hynny i ddiogelu'r plentyn rhag cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef niwed arall. Mae'r ddyletswydd hon yn cael blaenoriaeth, beth bynnag sy'n cael ei weithredu yn sgil y prawf cymhwysedd neu beth bynnag fo canlyniad y prawf hwnnw. Mae dyletswyddau ar gyfer diwallu anghenion 'plant sy'n derbyn gofal' wedi'u cynnwys yn Rhan 6 y Ddeddf.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a yw anghenion unigolyn yn galw am arfer unrhyw swyddogaeth sydd ganddynt o dan Ran 4 (Gofal a Goruchwylio) neu Ran 5 (Diogelu Plant) Deddf Plant 1989.

Mae'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft yn datgan yn glir bod rhaid i'r broses asesu fod yn hygyrch i'r unigolyn sy'n cael ei asesu, o ran y dull darparu a'r defnydd o iaith a fformat priodol.

Bydd y meini prawf cymhwysedd newydd yn hyblyg ac yn cydnabod bod pobl angen cymorth ar wahanol adegau o'u bywyd. Rhoddir y 'statws cymhwysedd' i'r angen ac nid y person. Gwerth hyn yw y gellir darparu gwasanaethau i bobl pan fyddant eu hangen yn ystod eu bywyd, neu ar gyfer rhai elfennau o ofal a chymorth (neu gymorth i ofalwr) y maent yn eu derbyn.

---

**Bwrdd Diogelu Annibynnol**

**Mae'r Comisiynydd wedi egluro'r angen am fwrdd diogelu plant cenedlaethol â chadeirydd annibynnol i ddarparu arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol ar ddiogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd. Er ei fod yn siomedig nad yw'n benodol ar gyfer plant, mae'n falch y bydd bwrdd diogelu annibynnol yn cael ei sefydlu drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**Er ei fod yn cydnabod gwaith y panel cynghori ar ddiogelu a sefydlwyd gan y Gweinidog i ddarparu cyngor ac arweiniad ar agweddau penodol o'r cynigion a geir yn y Ddeddf yn ymwneud â diogelu a gwarchod plant ac oedolion, a'r datblygiadau o ran rheoleiddio a chanllawiau, mae'r Comisiynydd yn parhau yn bryderus am yr arafwch wrth roi Bwrdd Diogelu Cenedlaethol ar waith. Nid oedd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol cysgodol wedi'i sefydlu ym mis Ebrill**

**2014 na llinell amser clir wedi'i osod ar gyfer sefydlu'r Bwrdd yn llawn yn dilyn cychwyn y Ddeddf ym mis Mai 2014.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn gynnar yn 2014/15.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a fydd yn gweithio gyda Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion i sbarduno gwelliant; adrodd ar ba ddigonol ac effeithiol yw trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion a gwneud argymhellion i Weinidogion ar sut y gellid gwella trefniadau.

Gydol ei chyfnod yn arwain Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), roedd Mrs Gwenda Thomas AC, yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i sicrhau bod Aelodau a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, gan gynnwys cyhoeddi nifer o Ddatganiadau Ysgrifenedig cynhwysfawr. Mae'r diweddaraf o'r rhain, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014, yn nodi dull cydlynol o weithredu'r is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Ebrill 2016. Eglurodd y Datganiad y byddai'r is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi sefydlu'r Bwrdd Cenedlaethol yn ffurfio rhan ganolog o haen gyntaf y rheoliadau a fyddai'n destun ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2014.

Bydd y rheoliadau sy'n rheoli cyfansoddiad a chyfrifoldebau y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar gael fel rhan o'n hymgynghoriad ac maent wedi'u datblygu drwy ymgysylltu a thrafod ag ystod eang o randdeiliaid dan arweiniad y Panel Cynghori ar Ddiogelu.

Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ffurfiol a ddaw i ben ddechrau 2015, rydym yn dal i fwriadu cyflwyno'r rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad yng Ngwanwyn 2015 a dechrau'r ymarfer penodiadau cyhoeddus i gyd-fynd â'r amserlen honno.

---

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

**Yn dilyn ei alwad am weithredu yn ei adroddiad blynyddol yn 2012/13, mae'r Comisiynydd yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grŵp Sicrwydd Cyflenwi CAMHS Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.**

**Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol ganddo o hyd am allu plant a phobl ifanc i fanteisio ar wasanaethau priodol sy'n canolbwyntio ar blant ac sy'n ymateb i'w hanghenion unigol. Mae'n croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor Addysg Plant a Phobl Ifanc i'r gwasanaethau hyn ac yn edrych ymlaen at ddarllen ei adroddiad. Mae'r Comisiynydd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i hwyluso eu hymgysylltu a chlywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc. Bydd yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion y mae plant a phobl ifanc wedi'u codi gydag ef mewn perthynas â CAMHS.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro sut y bydd yn gwella cyfleoedd plant a phobl ifanc i gael gwasanaethau CAMHS priodol sy'n canolbwyntio ar blant ac sy'n ymateb i'w hanghenion unigol, a darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Gan gydnabod bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol yn y gwaith o gefnogi Byrddau Iechyd Lleol, yn 2013 aethom ati i ddatblygu Cynllun Gwella Gwasanaethau CAMHS, gan ddwyn ynghyd yr holl faterion a meysydd oedd angen sylw pellach. Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i amryw o bryderon a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys y rhai yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru/Arolygiaeth Iechyd Cymru o wasanaethau diogelu CAMHS ym mis Rhagfyr 2013. Sefydlwyd Grŵp Llywio Prosiect dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC); Uned Cyflawni'r GIG; a Chadeirydd Rhwydwaith Cynllunio CAMHS/ wedi'u cynrychioli ar y grŵp.

O ran y gwaith ar gynllun a chynaliadwyedd hirdymor CAMHS, rydym eisoes wedi cyflwyno cymorth i sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r Athro Fonesig Sue Baily OBE DBE FRCPsych, Seiciatrydd Fforensig Ymgynghorol ym maes Plant a'r Glasoed ac Athro Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, sydd wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Lloegr, wedi cytuno eisoes i ymgymryd â'r swydd ar gyfer cefnogi newid a datblygiad clinigol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau'r Gweinidog am ofal iechyd darbodus, gan alluogi'r gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau mwyaf priodol i weithio o fewn eu maes arbenigedd, a sicrhau nad yw'r person ifanc yn cael ei ddifrïo o oedran cynnar fel rhywun sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, pan fo modd diwallu ei anghenion heb orfod troi at wasanaethau o'r fath yn aml.

Y cychwyn ffurfiol i'r gwaith hwn fydd cynhadledd fawr a gynhelir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda CAMHS a'i bartneriaid i drafod y materion. Mae angen sicrhau cytundeb gyda gweithwyr proffesiynol, sy'n gweithio i'r GIG ac mewn mannau eraill, ar sut i ddiwallu anghenion y niferoedd cynyddol o bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau CAMHS arbenigol.

Mae Byrddau Iechyd wedi ad-drefnu trefniadau cynllunio a chomisiynu CAMHS a chafwyd cyfarfod cyntaf o Rwydwaith Cynllunio CAMHS ac Anhwylderau Bwyta Cymru ym mis Ebrill 2014, a fydd yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynllunio yn genedlaethol, gyda darpariaeth gymunedol a thrydyddol yn cydweithio er lles y claf.

<u>Unedau cleifion mewnol CAMHS</u>
Bydd gwella mynediad i'n hunedau cleifion mewnol yn cael ei gefnogi gan y cyhoeddiad a wnaed ym mis Hydref 2013 i ddarparu £250,000 y flwyddyn i wella gwasanaethau Anhwylderau Bwyta yn y De, gan alluogi mwy o bobl ifanc i dderbyn gofal yng Nghymru yn hytrach na chael eu hanfon i ffwrdd i dderbyn gofal. Mae hyn wedi arbed costau drwy beidio gorfod atgyfeirio claf am driniaeth yn Lloegr, a bydd yr arian sy'n cael ei arbed yn cael ei ail-fuddsoddi yn narpariaeth CAMHS.

<u>Darpariaeth gymunedol CAMHS</u>
Mae gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf dimau ymyrryd mewn argyfwng cymunedol ar waith, ac mae'r rhain yn darparu gwasanaeth i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno eu gwasanaeth ymyrryd mewn argyfwng yn llawn, ac mae'r gwasanaeth bellach ar waith yn llawn.

Nid oedd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys yn darparu'r gwasanaeth hwn; mae WHSSC wedi cytuno i ariannu achos busnes gyda'r nod o weithredu'r gwasanaethau hyn yn llawn erbyn mis Ebrill 2015. Erbyn y flwyddyn nesaf bydd timau ymyrryd mewn argyfwng ar gael ledled Cymru er mwyn i blant bregus gael eu trin yn y gymuned.

Timau Troseddwyr Ifanc
Yn gynharach eleni, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd yn gofyn iddynt sicrhau bod yna gyswllt a enwir mewn timau CAMHS sy'n gallu darparu'r cyngor a'r cymorth priodol sydd eu hangen i'r Timau Troseddwyr Ifanc. Mae'r Timau Troseddwyr Ifanc wedi'u cynrychioli ar Grŵp Sicrhau Cyflawni y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl fel y gallwn fonitro'r gwaith wrth fynd ymlaen.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi datblygu cyfres newydd o ddangosyddion perfformiad sy'n cynnwys un sy'n ymwneud â CAMHS yn benodol. Y bwriad yw treialu'r dangosyddion newydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015, cyn eu cyflwyno ledled Cymru ym mis Ebrill 2014.

Rydym yn darparu £50,000 i Fwrdd Iechyd Cwm Taf i ariannu darpariaeth mewngymorth dan arweiniad nyrsys i Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar y Parc. Cyhoeddwyd Asesiad o Anghenion Iechyd y Sefydliad a bydd yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod gwasanaethau CAMHS priodol yn cael eu darparu yn y Sefydliad.

Derbyniadau Amhriodol
Ar ôl sesiwn cwmpasu Gwasanaethau CAMHS ac Oedolion gyda nifer o glinigwyr yn gynharach yn 2014, rydym wedi paratoi canllawiau cynhwysfawr ar achosion amhriodol o dderbyn pobl ifanc o dan 18 oed i unedau oedolion, gan ystyried hawliau pobl ifanc i fynegi eu barn am ble yr hoffen nhw gael eu lleoli. Mae'r canllawiau drafft yn destun ymgynghoriad ffurfiol nes 5 Rhagfyr, gyda golwg ar ei weithredu ddechrau 2015.

Amseroedd Aros
Mae Byrddau Iechyd Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr wedi buddsoddi arian mewn mentrau i leihau eu rhestrau aros. Rydym hefyd yn annog Byrddau Iechyd i fabwysiadu targedau amseroedd aros mwy realistig a heriol ar gyfer CAMHS, i gyd-fynd yn fwy â'r hyn a ddefnyddir mewn gwasanaethau iechyd meddwl eraill er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson a theg.

---

**Gofalwyr Ifanc**

**Yn ei adroddiad yn 2012/13 galwodd y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad cenedlaethol cryf a chamau gweithredu clir i ddeiliaid dyletswydd lleol yn y Strategaeth Ofalwyr i Gymru ar ei newydd wedd. Mae'n falch fod y Llywodraeth wedi ymateb yn gadarnhaol gan fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd drwy'r broses ymgynghori.**

**Mae'r Comisiynydd yn aros gyda diddordeb i weld cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n pryderu, yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, y gallai'r meini prawf dwy ran ar gyfer cymorth statudol sydd i'w defnyddio i asesu bod gan ofalwr anghenion cymorth, a bod rhaid profi'r anghenion hynny yn erbyn**

**trothwyon cymhwyster, olygu y bydd adnoddau'n cael eu gwarchod yn fwy caeth a bydd yn pryderu pe bai hynny'n digwydd.**

**Bydd yn monitro'r rheoliadau a'r canllawiau i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i anghenion y grŵp bregus hwn o blant a phobl ifanc.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n gweithredu fel gofalwyr.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno model newydd o ddarparu gofal a chymorth i holl ddinasyddion Cymru: (oedolion, plant a gofalwyr – yn cynnwys gofalwyr ifanc). Pan ddaw i rym ym mis Ebrill 2016 bydd angen hyrwyddo lles a threfniadau newydd ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, y meini prawf cymhwysedd, a threfniadau asesu a chynllunio gofal.

Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft ar 6 Tachwedd. Maent yn nodi:

- proses glir ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, yn cynnwys gofalwyr ifanc;
- un broses asesu a fydd yn berthnasol i bawb – plant, oedolion a gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc;
- fframwaith ar gyfer pennu cymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth (a chymorth i ofalwyr) a drefnir ac a ddarperir gan awdurdod lleol sy'n gyson ledled Cymru ac sy'n berthnasol i blant, oedolion a gofalwyr.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar a yw'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn darparu fframwaith ar gyfer diwallu anghenion plant.

<u>Sensitif i anghenion plant – Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth</u>
Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu un Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a fydd ar gael i <u>bawb</u> yn ardal yr awdurdod lleol ac yn darparu pwynt mynediad allweddol i'r system ofal a chymorth. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn nodi bod rhaid i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fod ar gael i bawb a bydd staff wedi'u hyfforddi yn gallu darparu cyngor perthnasol wedi'i dargedu – yn cynnwys cyngor i ofalwyr ifanc – ar y cymorth sydd ar gael a'u helpu i gael gafael arno.

Bydd staff yn cael eu hyfforddi i gynnal asesiadau a gall gofalwyr ifanc sy'n troi at y Gwasanaeth fod yn hyderus y byddant yn derbyn gwybodaeth a chyngor priodol ac yn cael cyfle i gael asesiad teuluol i'w helpu i gynllunio'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion cymorth**.**

<u>Asesu</u>
Mae yna gysylltiad annatod rhwng Asesu a Chynllunio Gofal a'r meini prawf cymhwysedd ac felly mae'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft yn dibynnu ar ei gilydd. Mae'r fframwaith ar gyfer yr holl asesiadau plant, oedolion a gofalwyr yn cynnwys set data craidd gofynnol cenedlaethol yna dadansoddiad o 5 ffactor rhyng-

gysylltiedig i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried amgylchiadau'r unigolyn yn gyffredinol. Dyma'r ffactorau:

- Canlyniadau personol
- Rhwystrau i gyflawni canlyniadau personol
- Amgylchiadau unigolyn
- Cryfderau a galluoedd unigolyn
- Risgiau

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad o anghenion cymorth gofalwr ac asesu a oes gan y gofalwr anghenion cymorth (neu'n debygol o fod yn y dyfodol) ac os oes ganddo, beth yw'r anghenion hynny neu beth ydynt yn debygol o fod. Caiff y ddyletswydd ei hysgogi os yw'r awdurdod lleol yn credu bod gan y gofalwr anghenion cymorth. Mae'r ddyletswydd i asesu yn berthnasol waeth beth fo barn yr awdurdod ar faint o gymorth sydd ei angen ar y gofalwr nac adnoddau ariannol y gofalwr neu adnoddau ariannol yr unigolyn sydd angen cymorth.

Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o'r graddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni iddynt eu hunain ac os mai plentyn yw'r gofalwr, y canlyniadau y mae'r unigolyn(ion) sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwnnw'n dymuno eu cyflawni ac i ba raddau y gall cymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd pobl i gyflawni'r canlyniadau sydd orau i'w lles, yn ogystal â chanolbwyntio ar eu hanghenion a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu. Bydd yn sicrhau bod y bobl eu hunain yn ganolog i benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth ac yn cael eu galluogi i gynnal eu lles bob amser. Yn achos plant, bydd hyn yn naturiol yn cynnwys asesiad o allu'r teulu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth priodol ar gael i'r rhai sydd eu hangen a chymorth priodol i'r rhai sy'n gofalu.

Gall plant sy'n darparu gofal i oedolion gael eu hanghenion wedi'u hasesu o dan y Ddeddf fel plant sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Ni fydd y rheoliadau a'r cod ymarfer ar asesu yn gofyn am ddwy broses asesu ar wahân i hyn. Pan fo'n rhesymol amau bod plentyn mewn risg mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu ar hyn yn ddi-oed.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn datgan yn glir bod rhaid i'r broses asesu fod yn hygyrch i'r unigolyn sy'n cael ei asesu, o ran y dull darparu a'r defnydd o iaith a fformat priodol.

Yn achos gofalwyr ifanc, bydd yr asesu yn cael ei drefnu yn yr un ffordd ag eraill sydd am ddiwallu eu hanghenion cymorth. Ym mhob achos, mae unrhyw asesiad o ofalwr yn debygol o gynnwys asesiad o anghenion y rhai y maent yn gofalu amdanynt, er mwyn gallu diwallu'r anghenion yn y ffordd orau yn gyffredinol. Drwy asesu, bydd staff sydd wedi'u hyfforddi yn gallu deall beth mae'r gofalwr ifanc am ei gyflawni o ran canlyniadau lles personol a gweithio gyda'r unigolyn i ddod o hyd i ffyrdd o gyflawni hyn.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn disgrifio proses asesu a chynllunio gofal a chymorth sy'n gyson i bawb - oedolion, plant a gofalwyr ledled Cymru. Fodd bynnag, mae yna ddarpariaethau penodol i sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn briodol.

Cymhwysedd

Bydd pobl yn dod yn gymwys am ofal cymdeithasol pan fyddant yn gallu diwallu eu hanghenion lles eu hunain ac angen cymorth gan yr awdurdod lleol i reoli'r trefniadau fel rhan o gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwyr. Bydd y rheoliadau a'r cod ymarfer drafft yn gofyn i awdurdodau lleol seilio'r penderfyniad cymhwysedd ar drafodaeth ddeallus gyda'r unigolyn am yr hyn sydd o bwys iddyn nhw, beth mae'r unigolyn am ei gyflawni mewn bywyd, ac a oes angen gofal a chymorth wedi'u rheoli arnyn nhw i helpu i gyflawni hyn.

Bydd y meini prawf cymhwysedd newydd yn hyblyg ac yn cydnabod y bydd pobl angen cymorth ar wahanol adegau yn eu bywyd. Rhoddir y 'statws cymhwysedd' i'r angen ac nid y person. Gwerth hyn yw y gellir darparu gwasanaethau i bobl pan fyddant eu hangen yn ystod eu bywyd, neu ar gyfer rhai elfennau o ofal a chymorth y gall gofalwr eu hangen.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi dileu'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth gyfredol bod rhaid i ofalwr ddarparu llawer iawn o ofal yn rheolaidd er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth. Am y tro cyntaf, mae gofalwyr wedi cael yr un hawliau'n union i dderbyn cymorth â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt a gellir cydnabod llawer mwy o bobl fel rhai sy'n darparu gofal ac sy'n gymwys am gymorth i'w helpu i ddarparu'r gofal hwnnw.

Mae'r Ddeddf yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Gall awdurdodau lleol drin unigolyn fel gofalwr hyd yn oed pan na fyddai'n cael ei ystyried yn ofalwr fel arall os yw'n ystyried y byddai'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofalu.

Mae'r rheoliadau gofal a chymorth (cymhwysedd) wedi'u mynegi ar wahân i blant a gofalwyr gan beri bod awdurdodau lleol yn gallu ymateb i ofalwyr ifanc fel gofalwyr ac fel plant. Mae'r fframwaith cymhwysedd yn sensitif i anghenion, cyd-destun a chanlyniadau gwahanol plant sy'n ofalwyr ac mae'r rheoliadau drafft ar gymhwysedd wedi'u trefnu mewn modd sy'n nodi anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Mae'r rheoliadau drafft ar gymhwysedd wedi'u trefnu i nodi anghenion sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd plant sydd ag anghenion gofal a chymorth a chymorth os yw'r plentyn yn ofalwr. Mae hyn yn cynnwys nodi a fyddai peidio â diwallu'r angen yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad y plentyn.

Pan fo gofalwyr ifanc yn gallu diwallu eu hanghenion eu hunain, neu'n gallu gwneud hynny drwy ddefnyddio adnoddau eu teulu, ffrindiau neu'r gymuned nid oes angen y statws cymhwysedd. Pan nad ydynt yn gallu gwneud hyn gellir defnyddio'r statws cymhwysedd i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Yn achos gofalwyr ifanc, bydd yr hyblygrwydd i ddefnyddio neu beidio defnyddio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer unrhyw anghenion cymorth sydd ganddynt yn ddefnyddiol ac mae'r dull hwn yn cydnabod sefyllfa llawer o ofalwyr ifanc sef bod eu hanghenion yn amrywio a bod eu gallu i ymdopi â'u galwadau gofalu yn gallu amrywio ar adegau gwahanol o'u bywyd e.e. amser arholiadau neu symud i ysgol uwchradd.

---

**Mabwysiadu**

**Yn ystod Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu yn 2013 cafodd y Comisiynydd gwrdd â phobl ifanc oedd wedi'u mabwysiadu mewn grŵp TALKadoption. Codwyd llawer o faterion ganddynt, gan ddisgrifio nad yw athrawon bob amser yn deall sut beth yw bod yn blentyn neu'n berson ifanc sydd wedi'i fabwysiadu a'u bod weithiau'n gallu trin pethau'n wael. Sonion nhw pa mor bwysig oedd iddyn nhw gyfarfod â'i gilydd yn y grŵp TALKadpotion. Mae'n ffynhonnell o gymorth emosiynol. Dywedodd rhai pobl ifanc oedd wedi cael eu cyfeirio at CAMHS nad oedden nhw'n teimlo bod staff CAMHS yn deall problemau mabwysiadu ac nad oedd ymyrraeth CAMHS wedi bod o gymorth iddyn nhw. Siaradodd y grŵp hefyd am yr angen i gael gwybodaeth glir a chyngor i blant a phobl ifanc am fabwysiadu, eu hawliau a ffynonellau o gymorth.**

**Nododd y bobl ifanc dri mater/blaenoriaeth:**

**1. Yr angen i hyfforddi athrawon a chodi ymwybyddiaeth am fabwysiadu a'i effaith ar blant a phobl ifanc, ac y dylid cynnwys mabwysiadu fel pwnc ABCh.**
**2. Darparu grwpiau cymorth cymheiriaid fel y grŵp TALKadoption cyfredol i gynorthwyo llesiant emosiynol pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu ar draws Cymru. Roedd yn anodd iddyn nhw gael cymorth fel pobl ifanc gan fod llawer o'r gweithgareddau cymorth oedd yn bodoli ar gyfer pobl ifanc neu ar gyfer y cyfnod yn union ar ôl mabwysiadu'n unig.**
**3. Darparu gwybodaeth glir am hawliau plant a phobl ifanc yn ystod y broses o fabwysiadu a phontio at gyngor a chymorth ar ôl mabwysiadu.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwybodaeth a chyngor ar yr hawliau i blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses fabwysiadu.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

<u>Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Chymorth ar ôl Mabwysiadu</u>
Ar 5 Tachwedd, fel rhan o'r Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol, lansiodd Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid allweddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd i Gymru. Bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu drwy bump o wasanaethau cydweithredol rhanbarthol: y Gogledd, y De-ddwyrain, y Gorllewin a'r Canolbarth, Bae'r Gorllewin, a'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Mae'r trefniadau a gyflwynwyd i sefydlu'r Gwasanaeth yn gosod anghenion y plentyn yng nghanol y broses fabwysiadu.

Bydd gan bob gwasanaeth cydweithredol yr un gyfres o gyfrifoldebau a swyddogaethau a bydd yn gweithredu o fewn fframwaith rheoli perfformiad a ddatblygwyd ar lefel genedlaethol. Bydd un awdurdod lleol ym mhob gwasanaeth cydweithredol yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer cyflawni'r holl rolau a swyddogaethau rhanbarthol. Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gyflawni eu hatebolrwydd statudol drwy Fwrdd Cydweithredol Rhanbarthol ac yn cadw'r cysylltiad â swyddogaethau gweithredol a chraffu eu hawdurdodau lleol. Bydd pob gwasanaeth cydweithredol yn atebol am ei berfformiad i Gyfarwyddwr Gweithrediadau, yna i Fwrdd Cenedlaethol.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei sefydlu i ddiwygio effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses fabwysiadu yn bennaf ac i ystyried sut y gall

fod yn fwy cynhwysfawr ac ymatebol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio ganddo. Comisiynodd Llywodraeth Cymru nifer o brosiectau ymchwil i gefnogi datblygiad y Gwasanaeth, yn cynnwys ymchwilio i wasanaethau cymorth mabwysiadu a'r hyn sy'n tarfu ar fabwysiadu. O'r dystiolaeth a gasglwyd eisoes rydym yn gweld bod rhywfaint o anghysondeb yn narpariaeth y gwasanaeth ledled Cymru ac mae gennym ddarlun llawer cliriach erbyn hyn o'r materion sy'n rhaid eu datrys i sicrhau bod lleoliadau yn gynaliadwy. Bydd y Gwasanaeth yn mynd ati'n fuan i ystyried yn fanwl beth yw'r ffordd orau o weithredu camau i wella gwasanaethau cymorth ar gyfer mabwysiadu ledled Cymru.

Addysg, hyfforddiant athrawon a chodi ymwybyddiaeth ymysg athrawon mewn perthynas â mabwysiadu

Mae'n rhaid i unigolion sydd am addysgu fel athrawon cymwysedig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) a bodloni safonau statudol SAC. Datganiadau canlyniadau yw Safonau SAC sy'n nodi beth ddylai hyfforddeion ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ddiwedd cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon neu raglen seiliedig ar gyflogaeth i ennill statws SAC. Mae'r Safonau SAC yn gofyn i bob hyfforddai ddangos ei fod yn gwybod a deall y gofynion a'r hawliau a nodwyd yn y datganiadau "Cynnwys Pob Dysgwr" ym mhob gorchymyn pwnc a fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r datganiad hwn yn dweud bod rhaid darparu addysg sy'n datblygu personoliaeth a doniau pob plentyn a pherson ifanc yn llawn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a dogfen strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru, Gweithredu'r Hawliau.

Mae Safonau SAC hefyd yn cynnwys safonau cyffredinol sy'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu bodloni ac mae'r rhain yn gysylltiedig â chyhoeddiadau a gofynion statudol eraill fel y bo'n briodol. Er enghraifft, mae gofyn i bob hyfforddai ddangos eu bod yn deall anghenion dysgu amrywiol pob dysgwr, yn cynnwys plant wedi'u mabwysiadu a phlant sy'n derbyn gofal, a cheisio darparu'r addysg orau bosibl iddynt er mwyn cyflawni eu potensial, waeth beth fo'u dyheadau unigol, eu hamgylchiadau personol neu eu cefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac ethnig ac mae'n rhaid i hyfforddeion allu dangos eu bod yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a lle gall dysgwyr deimlo'n ddiogel a hyderus.

Mae gofyn i hyfforddeion ymddwyn yn broffesiynol i sicrhau bod perthynas â dysgwyr yn cael ei datblygu ar sail ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac i gydnabod y bydd hyn yn helpu i gyflawni eu potensial dysgu. Rydym yn disgwyl i hyfforddeion roi tystiolaeth o'r safon hon drwy allu dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r CCUHP a dealltwriaeth a gwybodaeth am hawliau pob dysgwr, fel y'u nodwyd yn CCUHP a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu addysg dda i bob plentyn yng Nghymru waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau. Mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar brofiadau pobl ifanc ym myd addysg. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod plant sydd wedi'u mabwysiadu yn gallu cyflawni yr un canlyniadau addysgol â holl ddisgyblion eraill Cymru ac mae ein dull cynhwysol fel rhan o'r agenda gwella ysgolion yn darparu'r cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r plant hyn allu elwa ar yr un safon dda o addysg â'u cyfoedion mewn addysg prif ffrwd.

Rydym yn datblygu strategaeth ar gyfer codi dyheadau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal sy'n ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n amlwg bod y materion cymhleth sy'n effeithio ar allu plentyn sy'n derbyn gofal i gyflawni ei botensial addysgol yn parhau wedi iddo gael ei fabwysiadu, am ryw hyd beth bynnag. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys modiwl ar anghenion plant sy'n derbyn gofal mewn

cyrsiau hyfforddi athrawon. Pe bai'r modiwl hwn yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth, byddwn yn edrych ar gyflwyno un tebyg i gwmpasu anghenion plant sydd wedi'u mabwysiadu.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag Adoption UK i barhau y drafodaeth ehangach am natur mabwysiadu. Rydym wedi dysgu am nodweddion plant sydd wedi'u mabwysiadu a'r mathau o brofiadau y gallent fod wedi'u cael cyn mabwysiadu. Bydd y drafodaeth hon yn parhau.

Plant a phobl ifanc ag anawsterau ymddygiad emosiynol

Rydym wedi cymryd camau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau emosiynol drwy ddatblygu gwasanaethau cwnsela. Mewn ysgolion, mae cwnsela yn ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Cafodd gwasanaeth cwnsela ei gyflwyno'n wreiddiol ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir, gyda chymorth grant.

Ers mis Ebrill 2013, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal a disgyblion ym mlwyddyn 6 ysgolion cynradd. Yr un pryd, trosglwyddwyd £4.5 miliwn i'r Grant Cymorth Refeniw er mwyn parhau i gefnogi'r gwasanaeth hwn. Roedd y gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn 2011 yn dangos bod 80% o benaethiaid ac athrawon cyswllt ysgolion a holwyd yn teimlo bod ymddygiad disgyblion wedi gwella yn sgil cwnsela. Drwy gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad, gallwn eu helpu i ymroi i'w dysgu.

---

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth**

**Mae'r Comisiynydd wedi mynegi ei bryderon dros nifer o flynyddoedd bod statws y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn aneglur a bod tystiolaeth o wendid wrth roi'r safonau ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn glir fod disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol hunanasesu yn erbyn y safonau yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, sydd ym marn y Llywodraeth yn parhau i fod yn fframwaith defnyddiol ar gyfer monitro perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol adrodd yn erbyn y Fframwaith.**

**Mae Llywodraeth Cymru nawr yn cynhyrchu cynlluniau cyflenwi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau penodol mewn perthynas ag iechyd fel rhan o "Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 2012-2016". Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau cyflenwi'n canolbwyntio ar oedolion felly roeddwn i'n falch i weld y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymrwymo i ddatblygu cynllun cyflenwi i blant a phobl ifanc.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori a chyflwyno cynllun cyflenwi iechyd i blant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fel mater o frys.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn dal i ddarparu fframwaith defnyddiol ar gyfer monitro perfformiad, ac mae disgwyl i fyrddau iechyd lleol hunanasesu yn erbyn safonau'r fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod datblygiadau wedi bod ers cyflwyno'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn 2005 sy'n gofyn am adolygu'r fframwaith hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun a fydd yn dilyn ymlaen o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, y daw ei gyfnod gweithredu i ben ym mis Medi 2015. Bydd y gwaith o ddatblygu cynllun yn cynnwys cyfnod ymgynghori ac eirioli gyda phlant i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae Is-adran Iechyd y Cyhoedd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechrau ar waith i ddatblygu cynllun a fydd yn cymryd lle'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant sydd yn dod i ben.

Bydd y gwaith o ddatblygu cynllun yn ystyried hawliau plant, fel y cânt eu hamlinellu yn CCUHP, ac fel cynlluniau cyflawni eraill, bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi am y cynllun.

---

**<u>Gofal Parhaus</u>**

**Roedd pobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau i gysylltu â'r Comisiynydd yn ystod 2013/14 am anghydfodau cyllido ar gyfer gofal parhaus. Mae pecynnau gofal parhaus yn darparu gofal a chymorth hirdymor i bobl ifanc sy'n anabl neu sydd angen cymorth am reswm arall. Gall pecynnau gofal parhaus gynnwys gofal gan weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol. Y Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gyllido pecynnau gofal iechyd ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyllido pecynnau gofal cymdeithasol. Mae trafferthion yn codi pan geir anghydfod wrth gydbwyso'r costau.**

**Yn 2013/14 cysylltodd pobl ifanc a'u teuluoedd â gwasanaethau Cyngor a Chymorth y Comisiynydd gan fod achosion o anghydfod o ran cyllido'n golygu nad oedden nhw'n derbyn y gofal yr oedd ganddyn nhw hawl iddo. Ers iddo godi pryderon tebyg yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, mae'r Comisiynydd yn falch fod Fforwm Nyrsio Plant Cymunedol Cymru Gyfan bellach yn datblygu pecyn e-ddysgu i gefnogi gweithrediad y canllawiau gofal parhaus a gyhoeddwyd yn 2012. Mae'n deall bod Byrddau Iechyd Lleol yn datblygu eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain i roi'r canllawiau ar waith.**

**Serch hynny, mae angen brys o hyd i ddatrys gweithdrefnau lle ceir anghydfod. Os ceir anghydfod rhwng awdurdodau â'i gilydd, ni ddylai'r rhain effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i fanteisio ar y pecyn gofal.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru gyda'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol i gytuno ar weithdrefnau i ddatrys anghydfodau cyllido gofal parhaus yn gyflym, a heb effeithio ar y ddarpariaeth gofal uniongyrchol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae'n annerbyniol oedi gofal yn sgil anghydfod rhwng asiantaethau am gyfraddau ariannu. Mae'r protocol ar gyfer datrys anghydfod wedi'i ddisgrifio yn 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell'.

Cyhoeddwyd Canllawiau Gofal Parhaus ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'u partneriaid ar 28 Tachwedd 2012. Mae'r canllawiau'n datgan yn eglur bod rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau na wrthodir gofal iechyd priodol neu fod unrhyw oedi o ran darparu gofal iechyd priodol i blentyn yn sgil anghydfod am drefniadau ariannu.

Nid yw'r canllawiau yn rhoi canllawiau ar gynnwys neu ariannu pecynnau gwirioneddol o ofal parhaus, a hynny'n fwriadol. Nid adnodd cyfarwyddol mohono ac ni all ddisodli'r angen am benderfyniadau lleol cadarn ynghylch anghenion gofal parhaus plant a phobl ifanc unigol a ddylai fod yn seiliedig ar anghenion a aseswyd.

Mae'r canllawiau yn datgan yn glir bod pob partner yn gyfrifol am ariannu ei gyfraniad ei hun i'r pecyn gofal parhaus yn unol â'i swyddogaethau statudol. Dylai hyn ddigwydd drwy grynhoi neu rannu arian a dylid cael trefniadau cadarn i sicrhau bod penderfyniadau prydlon yn cael eu gwneud am ariannu.

---

## NOD CRAIDD 4: MYNEDIAD I WEITHGAREDDAU CHWARAE, HAMDDEN, CHWARAEON A DIWYLLIANNOL

### Mynediad i chwarae

**Yn ei drafodaethau gyda phlant mae'n amlwg i'r Comisiynydd mai'r hyn maen nhw'n dymuno ei gael yw gofod, amser, caniatâd a rhyddid i chwarae.**

**Y llynedd, adolygodd y Comisiynydd weithrediad yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'n arbennig o bryderus nad oes digon o gyfleoedd gan blant sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl i chwarae. Nawr fe hoffai weld defnydd gwell o ysgolion a lleoliadau addysgol eraill fel llefydd lle gall plant gael**

**gwybodaeth am weithgareddau nad ydyn nhw'n costio dim a gweithgareddau cost isel. Hefyd, hoffai'r Comisiynydd weld trefniadau i alluogi awdurdodau lleol i rannu syniadau ymarferol am ddarparu cyfleoedd chwarae i blant anabl.**

**Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol ar chwarae plant ond mae'n bwysig fod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr eraill yn adfyfyrio ac yn cynnal eu hymrwymiad i helpu pob plentyn unigol, beth bynnag ei amgylchiadau, i gyrraedd ei botensial ei hun a mwynhau plentyndod llawn hwyl, gobaith, rhyfeddod a chyffro. Mae chwarae yn gyfle i blant ddysgu a datblygu, ac mae'r Comisiynydd yn gobeithio, wrth i awdurdodau lleol roi eu dyletswydd digonolrwydd chwarae ar waith, y byddwn ni'n gweld y rhwystrau sy'n atal plant rhag chwarae'n cael eu hamnewid am fwy o gyfleoedd i chwarae.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr eraill i sicrhau bod pwysigrwydd cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a phlant a phobl ifanc ag anableddau yn cael ei gydnabod a'i gefnogi yn ystod yr hinsawdd economaidd heriol gyfredol.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Ar 1 Gorffennaf 2014 dechreuodd Gweinidogion Cymru ar ail ran adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae yna ddyletswydd erbyn hyn ar Awdurdodau Lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i'r holl blant yn eu hardaloedd, gan ystyried eu hasesiadau digonolrwydd chwarae. I gyd-fynd â hyn, cyhoeddwyd Cyfarwyddyd Statudol, Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae. Mae'r canllawiau'n datgan:

> "Cred Llywodraeth Cymru y gall cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn helpu i liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a helpu i'w gwneud yn fwy cydnerth. Gall chwarae hefyd fod yn ffordd o leihau anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio darpariaeth hamdden gostus a'r rhieni na allant ei fforddio. Bydd hynny'n helpu i sicrhau nad yw plant yn cael eu hamddifadu o brofiadau."

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried amrywiaeth o faterion wrth asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys darparu ar gyfer anghenion amrywiol y plant, yn cynnwys plant anabl; y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig; a'r rhai o gymunedau a diwylliannau amrywiol. Dylent hefyd ystyried costau darpariaeth chwarae a'r chwarae sy'n cael ei gynnwys yn strategaethau tlodi plant awdurdodau lleol.

Mae gofyn i bob awdurdod lleol gael Cynllun Gweithredu Chwarae yn dangos sut y byddant yn gweithredu'r ddyletswydd gan gynnwys ymgysylltu'n effeithiol a hygyrch gyda phlant a phobl ifanc. Mae gofyn iddynt gyflwyno Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru hefyd yn dangos sut maent wedi cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu'r cynlluniau a'r adroddiadau i sicrhau cydymffurfiaeth.

---

**<u>Gwasanaethau ieuenctid</u>**

**Mae'r Comisiynydd yn bryderus fod y seilwaith diwylliannol y mae gwasanaethau ieuenctid yn dibynnu arno – llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a lleoliadau celfyddydol – yn cael ei danseilio o ganlyniad i flaenoriaethau cyllido'r awdurdodau lleol. Mae Erthygl 31 yn cynnwys hawl plant a phobl ifanc i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.**

**Ym mis Hydref 2013, lansiodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y cynllun gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar leihau'r nifer o bobl ifanc 11-25 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r Comisiynydd yn bryderus y caiff y gwaith o gyflawni uchelgais y llywodraeth yn ymarferol ei gyfyngu'n ddifrifol gan y cwtogi yn y gwasanaethau prif ffrwd sy'n chwarae rhan mor bwysig yn y gwaith o ymgysylltu a datblygu plant a phobl ifanc.**

**Mae'n deall yn iawn fod rhaid i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, wneud penderfyniadau anodd iawn wrth gwtogi cyllidebau. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn bryderus fod o leiaf un awdurdod lleol o'r farn nad oes angen iddo gynnal asesiad o'r effaith ar hawliau plant mewn perthynas ag unrhyw doriadau i wasanaethau. Mae'r Comisiynydd yn credu ei fod yn arbennig o bwysig fod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith y bydd eu penderfyniadau yn ei gael ar lesiant plant a phobl ifanc.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog awdurdodau lleol i roi sylw i hawliau plant wrth gynnal eu hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn deall sut y bydd y newidiadau arfaethedig i wasanaethau'n effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Rydym yn ymwybodol bod nifer o Wasanaethau Ieuenctid ledled Cymru wedi derbyn, neu'n mynd i dderbyn llai o gyllideb graidd ar gyfer darparu gwaith ieuenctid, yn sgil y toriadau i'r Grant Cymorth Refeniw. Byddwn yn monitro effaith y toriadau ariannol i Wasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol yn genedlaethol

Gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid byddwn yn edrych ar arferion gwaith ieuenctid ledled y DU, Ewrop a thramor, ac yn ystyried y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â modelau gwahanol o ddarparu a chontractio gwaith ieuenctid.

Mae Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn gofyn i bob sefydliad sy'n ymwneud â darparu gweithgareddau i bobl ifanc fabwysiadu dull integredig, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn.

Cyflwynodd pob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun gweithredu yn cadarnhau eu hymrwymiad i weithredu cerrig milltir Cynllun Gweithredu y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Pwrpas y Fframwaith yw darparu dull systematig i awdurdodau lleol nodi'r rhai sydd angen cymorth, gweld pa gymorth sydd ar gael, yna olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt symud o fyd addysg i addysg bellach neu gyflogaeth.

Mae gofyn i awdurdodau lleol fapio'r ddarpariaeth sydd ar gael yn eu hardal, a nodi unrhyw fylchau neu ddyblygu posibl, a fydd yn eu galluogi i gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth yn well.

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn peri cryn her i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag mae'r Fframwaith yn strwythur a fydd yn helpu awdurdodau lleol i weld a yw eu darpariaeth leol neu genedlaethol yn sicrhau canlyniadau effeithiol a gwerth am arian drwy fesur y gostyngiad yn niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar lefel leol.

Mae gan bob awdurdod lleol brif gyswllt yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio'n agos gyda nhw i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith. Fel rhan o'r cymorth hwn byddwn yn monitro effaith y toriadau ariannol ar eu gallu i ddarparu.

Drwy werthuso'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid byddwn yn edrych ar enghreifftiau o arferion cydweithio da, defnydd effeithiol o ffrydiau ariannu gwahanol ac ar sut mae gwasanaethau'n cael eu had-drefnu i gefnogi pobl ifanc yn well drwy rôl y gweithiwr arweiniol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd sy'n cwmpasu nifer o nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol er mwyn i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn well. Roedd y dyletswyddau'n cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad erbyn 31 Rhagfyr eleni, ar sut mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswydd gyffredinol.

Dyma'r adroddiad cyntaf o dan ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol ac mae'n rhoi trosolwg o gamau gweithredu ledled y sector cyhoeddus. Mae'n dangos y cynnydd a wnaed ac yn nodi'r heriau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gyflawni'r ddyletswydd. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r argymhellion cyffredinol ar gyfer cydweithio pellach ar draws y sector cyhoeddus i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi beth rydym yn ei wneud yn dda a beth y gallwn ei wella. Wrth i ni barhau i gydweithio i sicrhau rhagor o gynnydd ar gydraddoldeb, bydd sector cyhoeddus Cymru yn arwain y ffordd i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus a bod ein penderfyniadau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru.

Mae awdurdodau lleol o dan ofyniad statudol i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau ac arferion arfaethedig er mwyn asesu eu gallu i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid iddynt ystyried sut mae eu polisïau a'u harferion yn effeithio ar grwpiau gwarchodedig.

Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru rôl unigryw fel rheoleiddiwr Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru. Fel rhan o'i gylch gwaith, bu'r Comisiwn yn monitro defnydd awdurdodau lleol o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn 2013. Canfu'r Comisiwn fod llawer o Gynghorau wedi symud tuag at sicrhau bod tystiolaeth o asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn ofyniad sy'n sail i benderfyniadau.

Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad ein Cynllun Hawliau Plant ym mis Ebrill. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ein Hasesiad Effaith Hawliau Plant ac mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â pholisi a deddfwriaeth, gan roi cyd-destun i'r effaith y maent

yn ei chael. Mae hyn yn ei dro yn dylanwadu ar wasanaethau ar lawr gwlad a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n ganllaw i ni yn fewnol ac yn ddogfen sy'n sicrhau tryloywder yn allanol.

Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod "Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn sy'n dod o fewn adran 6(1)(a), (b) neu (c) roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn"

Ar 1 Gorffennaf 2014 daeth dyletswydd y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i rym, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion amrywiol plant ag anabledd; y rhai mewn ardaloedd gwledig; a'r rhai o gymunedau a diwylliannau amrywiol. Mae gofyn iddynt ystyried taliadau darpariaeth chwarae a chynnwys chwarae mewn strategaethau tlodi plant awdurdodau lleol hefyd.

Mae ein Canllawiau Gofal Parhaol Plant a Phobl Ifanc yn datgan bod rhaid i fyrddau awdurdodau lleol ac awdurdodau lleol sicrhau na wrthodir gofal iechyd priodol neu fod unrhyw oedi o ran darparu gofal iechyd priodol i blentyn yn sgil anghydfod am drefniadau ariannu.

Cyngor a Dinas Abertawe yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd ei holl waith ac mae awdurdodau lleol eraill yn dechrau eu dilyn yn hyn o beth.

---

## Seibiannau i ofalwyr plant ag anableddau

**Yn ei Adroddiad Blynyddol 2012-13 gwnaeth Comisiynydd Cymru ymrwymiad i adolygu gweithrediad 'Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012' gan awdurdodau lleol. Bu'n archwilio effaith y rheoliadau, yn cynnwys datganiadau gwasanaeth awdurdodau lleol ar ddarpariaeth seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau a'u gofalwyr. Ym mis Gorffennaf 2014 lansiodd y Comisiynydd Plant yr adroddiad 'Bywydau Cyflawn', sy'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ymateb amserol i'r argymhellion yn ei adroddiad 'Bywydau Cyflawn' ar wasanaethau seibiannau byr.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Bydd yr ymateb i adroddiad 'Bywydau Cyflawn' yn cael ei ddarparu i Gomisiynydd Plant Cymru erbyn diwedd mis Tachwedd, yn ôl yr hyn y cytunwyd arno gyda'i swyddfa.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn creu hawl am asesiad i blant, oedolion a gofalwyr pan allai unigolyn fod ag anghenion gofal a chymorth. Mae'n rhaid i'r asesiad geisio nodi'r canlyniadau y mae'r person yn dymuno eu cyflawni ac i ba raddau y gall gwasanaethau ataliol fel seibiannau byr gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn.

Dylai anghenion gofal person gael eu diwallu gan y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'w ofalwr, a allai gynnwys seibiannau byr os yw wedi nodi hyn fel canlyniad.

Pan fo gofalwr wedi'i asesu fel rhywun sydd angen gofal a chymorth bydd cynllun cymorth yn nodi'r cymorth y bydd ei angen er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt. Efallai mai seibiannau byr yw'r union gymorth sydd ei angen.

---

**NOD CRAIDD 5: CAEL EU TRIN Â PHARCH, A BOD EU HIL A'U HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL YN CAEL EU CYDNABOD**

**Cyfranogi**

**Yn y gorffennol, galwodd y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru i fonitro'r modd mae awdurdodau lleol yn diwallu eu dyletswyddau cyfranogi dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010 drwy'r Cynlluniau Integredig Sengl. Gofynnodd hefyd i'r Llywodraeth fonitro'r effaith ar strwythurau cyfranogi lleol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n falch fod hyn bellach yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ganolog i'r CCUHP ac mae'r Comisiynydd am weld Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro gweithrediad y ddyletswydd hon ar lefel genedlaethol ac awdurdodau lleol.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal rôl monitro clos ar gynnydd yn erbyn y dyletswyddau yn y mesur sy'n ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

'Cydamcanu - Cydymdrechu' yw'r canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl. Ailgyhoeddwyd y canllawiau ym mis Rhagfyr i gynnwys Atodiad sy'n nodi'r canllawiau statudol ar gyfer darparu a hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc o dan adran 12 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r Atodiad yn cynnwys ymrwymiad i fonitro a yw awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau statudol hyn a sut y maent yn gwneud hynny. Hysbyswyd Prif Weithredwyr awdurdodau lleol y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymweld â'r 22 awdurdod lleol yn ystod 2014 i edrych yn benodol ar y trefniadau oedd ar waith i weithredu'r ddyletswydd, a sut roedd hyn cael ei wneud yng nghyd-destun y Cynlluniau Integredig Sengl.

Hyd yn hyn, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi derbyn ymweliad. Yn ystod yr ymweliadau hyn cyfarfu swyddogion â Gweithwyr Cyfranogi, Cydgysylltwyr Plant a Phobl Ifanc, Prif Weithredwyr, Arweinwyr Cynghorau a Chynghorwyr, Swyddogion Arweiniol Cynlluniau Integredig Sengl, Cyfarwyddwyr Arweiniol, Fforymau Ieuenctid, Seneddau Ieuenctid a Chynghorau Ieuenctid.

Mae ymrwymiad, arloesedd a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi ein plesio'n fawr. Byddwn yn rhannu elfennau o arferion da yr awdurdodau gorau gydag eraill. Yn achos yr awdurdodau sydd wedi methu rhoi tystiolaeth eu bod wedi gweithredu'r canllawiau'n llawn, rydym wedi eu hysbysu y byddwn yn ail-ymweld â nhw o fewn 12 mis ac wedi nodi'r meysydd sydd angen eu gwella.

Byddwn yn cynnal ymweliadau monitro bob dwy flynedd. Fodd bynnag, os nad yw'r ddyletswydd yn cael ei gweithredu fel y disgwyl, ac yn unol â'r canllawiau, cynhelir ymweliad monitro dilynol ar ôl 12 mis.

---

**<u>Plant yn ceisio lloches</u>**

**Yn ystod 2013/14 cynyddodd pryder y Comisiynydd wrth weld gostyngiad yn y lefelau o gymorth oedd ar gael i blant yn ceisio lloches. Yn ystod y flwyddyn hon fe'i hysbyswyd am yr amgylchiadau anfoddhaol yr oedd plant oedd yn ceisio lloches a'u teuluoedd yn gorfod eu dioddef yng nghanolfan llety cychwynnol y Swyddfa Gartref yng Nghaerdydd. Doedd plant a phobl ifanc ddim yn gallu manteisio ar chwarae, addysg na gofal iechyd. Cododd y Comisiynydd y mater gyda'r Swyddfa Gartref a'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac mae'n falch i gyhoeddi bod ymateb cadarnhaol wedi arwain at nifer o newidiadau i'r cyfleuster yng Nghaerdydd.**

**Mae'r Comisiynydd yn arbennig o bryderus am y goblygiadau i blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu rhieni neu sy'n ceisio lloches. Heb gymorth ac eiriolaeth arbenigol, nid yw'n credu y bydd modd i'r plant hyn fanteisio ar eu hawliau cyflawn yng Nghymru, gan gynnwys hawliau o ran addysg ac iechyd. Er mai'r plant a phobl ifanc hyn yw'r mwyaf bregus, mae ef yn ei hystyried yn bwysig fod yr holl blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn cael cymorth i'w galluogi i fanteisio ar eu hawliau. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol, y Swyddfa Gartref ac asiantaethau arbenigol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yng Nghymru'n gallu manteisio ar eiriolaeth a chymorth sy'n caniatáu iddyn nhw ymarfer eu hawliau cyflawn o dan y CCUHP.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Ysgrifennodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol at y Comisiynydd Plant i ddiolch iddo am ysgrifennu i'r Swyddfa Gartref yn gofyn am sicrwydd y byddent yn mynd i'r afael â'r problemau yn y ganolfan lety.

Mewn ymateb, mae'r Swyddfa Gartref wedi trefnu cyfarfodydd gyda Clearel, Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector, sy'n cynorthwyo'r sector ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gyda'r nod o sicrhau bod y materion a godwyd yn cael eu datrys. Mae Swyddfa'r Gartref hefyd wedi sefydlu fforwm preswylwyr i sicrhau bod adborth yn cael ei gyflwyno i Clearel, y sefydliad sy'n rhedeg y ganolfan lety cychwynnol ar ran Swyddfa'r Cabinet. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd.

---

**NOD CRAIDD 6: CAEL CARTREF DIOGEL A CHYMUNED**

**Cyfiawnder Ieuenctid**

**Mae'r Comisiynydd Plant wedi mynegi siom bod y cynigion yn y Papur Gwyrdd ar Gyfiawnder Ieuenctid y dylai pob plentyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa gael ei drin fel unigolyn 'yn derbyn gofal' wedi cael eu gollwng o'r Papur Gwyn dilynol ar Gyfiawnder Ieuenctid. Mae'n pryderu na fyddai eu hanghenion yn cael eu hasesu a'u diwallu pan fo angen felly. Cafodd swyddogion cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol drafodaethau manwl ar y mater hwn a chytunwyd bod y darpariaethau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn ddigon cadarn i sicrhau bod plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael hawl i gael asesiad o'u hanghenion ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu o dan y Ddeddf lle bo angen. Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi estyn yr hawliau a roddir i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i blant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa, yn ystod ac yn dilyn eu dedfryd.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Bydd fframwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn sicrhau mwy o gymorth i blant sy'n cael dedfryd o garchar. Er bod Llywodraeth Cymru'n ceisio cael y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru wedi'i datganoli mae'n parhau i fod yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU ar hyn o bryd. Gallwn ond ymyrryd mewn

materion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant sy'n cael eu cadw mewn sefydliad diogel naill ai ar remand neu ar ôl cael dedfryd o garchar.

Mae yna ddau faes sy'n destun pryder i wasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd neu a oedd yn derbyn gofal ac a gollodd y statws hwnnw wrth gael eu dedfrydu i gael eu cadw yn y ddalfa. Mae'r plant hyn eisoes yn derbyn ymweliadau o dan reoliadau cyfredol (Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad a fu'n Derbyn Gofal (Cymru) 2011) a bydd hynny'n parhau o dan y rheoliadau a ysgrifennir i fod yn sail i ran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhan 11 y Ddeddf hefyd yn rhoi hawl i unrhyw blentyn a ddedfrydwyd i'w gadw mewn sefydliad diogel gael asesiad cymesur o'i anghenion gofal a chymorth os yw hyn yn angenrheidiol a beth yw'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hyn.

Mae'r ail faes yn ymwneud â phlant sy'n cael eu cadw ar remand mewn lleoliad diogel tan yr achos ac sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa neu eu gollwng yn rhydd. Bydd plant a phobl ifanc sy'n dod o dan y categori hwn yn dod yn rhai sy'n derbyn gofal yn awtomatig yn unol â Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr. Mae'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth plentyn sy'n derbyn gofal a nodi'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad cymesur, prydlon a bydd hyn yn parhau yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ebrill 2016. Os ydynt yn cael eu dedfrydu i orchymyn dalfa wedyn yn dilyn bod ar remand byddant yn parhau i gael eu hanghenion gofal a chymorth wedi'u diwallu o dan fframwaith Rhan 11.

Rydym wrthi'n datblygu rheoliadau a chod ymarfer dan Ran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli Rhan 3 Deddf Plant 1989 yn fras, ond rydym yn defnyddio'r cyfle hwn i fireinio a gwella'r fframwaith cymorth cyfredol lle bo angen. Mae rhan 6 yn cynnwys ystod o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a llety, yn cynnwys dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth benodol ynghylch gofal a chymorth parhaus i'r rhai sy'n gadael gofal, yn cynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal asesiadau a chynlluniau, cadw mewn cysylltiad, cynghorwyr personol, a darparu cymorth ariannol a chymorth arall ar gyfer lles y person ifanc. Mae'r dyletswyddau hyn yn cwmpasu pawb sy'n gadael gofal hyd at 21 oed, a gallant ymestyn i 25 oed yn achos y rhai sydd ym myd addysg neu hyfforddiant.

Rydym yn cynnal cyfres o weithdai technegol er mwyn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o lywodraeth leol a'r trydydd sector yn y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a'r cod. Rydym wedi trefnu i Plant yng Nghymru gynnal cyfres o dri gweithdy gyda phlant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, fel rhan o'r broses ddatblygu. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yng ngwanwyn 2015.

---

## Llwybrau diogel i'r ysgol

**Y llynedd, defnyddiodd y Comisiynydd Dasg Arbennig ein Llysgenhadon Gwych i annog plant a phobl ifanc i gyfrannu eu barn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar lwybrau diogel i'r ysgol. Derbyniwyd 540 o ymatebion unigol.**

**Roedden nhw am weld llwybrau cerdded a seiclo i'r ysgol yn cael eu gwneud yn fwy diogel. Roedden nhw'n poeni am draffig a diogelwch ffyrdd, ond hefyd am beryglon cymdeithasol ehangach. Roedd yr ymatebion yn dangos y cyfraniad**

**gwerthfawr sydd gan blant a phobl ifanc i'w wneud mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu bywydau.**

**Mae'r Comisiynydd yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon a godwyd gan y plant a'r bobl ifanc gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi datganiad ym mis Mawrth 2014 yn cydnabod pwysigrwydd diogelwch plant a'u bod yn teimlo'n ddiogel ac yn amlinellu ei hymrwymiad i wneud rhywbeth am hyn.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r cod ymddygiad teithio a chynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwybodaeth am y cod.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Roedd rhai o'r materion pwysicaf a nodwyd gan blant yn ymwneud â thraffig a diogelwch ar y ffyrdd, yn cynnwys perygl cymdeithasol.

Mae diogelwch a lles plant a phobl ifanc o bwys mawr i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac roedd yn falch bod plant a phobl ifanc wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad ar asesu risg llwybrau cerdded i'r ysgol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol gyda phlant a phobl ifanc ar y cyd â swyddfa'r Comisiynydd Plant. Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant fu'n ymgysylltu â dysgwyr oedran cynradd a chynhaliwyd gweithdai gyda dysgwyr oedran uwchradd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Tachwedd 2013 a 7 Chwefror 2014. Ymatebodd 542 o ddysgwyr cynradd drwy gyfryngau digidol ac ymatebodd 136 o ddysgwyr uwchradd drwy weithdai.

Darparodd ymatebwyr wybodaeth ddefnyddiol am faterion fel sut i sicrhau diogelwch plant ar y llwybr cerdded i'r ysgol; sut y gallai awdurdodau lleol ymgynghori â phlant; a pha ffactorau ddylai ysgogi asesiadau risg.

Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio fframwaith cynhwysfawr ar asesu llwybrau cerdded i'r ysgol. Mae'r canllawiau newydd hefyd yn darparu rhestr o ddulliau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i ymgynghori â phlant/pobl ifanc ac yn cynnwys argymhellion.

<u>Y Cod Ymddygiad wrth Deithio</u>

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cyd ar y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a gwerthusiad o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio rhwng 13 Ionawr 2014 a 13 Ebrill 2014 gan ennyn diddordeb amrywiaeth o randdeiliaid. Nododd yr ymgynghoriad nad yw llawer o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i wella'r Cod Ymddygiad wrth Deithio a'r nifer sy'n ei ddilyn drwy:

- Bennu data llinell sylfaen i weld sut mae digwyddiadau'n cael eu cofnodi a sut mae awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth yn ymdrin â nhw o dan y Cod Ymddygiad wrth Deithio.
- Sicrhau bod adnoddau'r Cod ymddygiad wrth Deithio ar gael yn haws i ysgolion ac athrawon drwy wefannau priodol.
- Paratoi rhaglen waith gyda'r Comisiynydd Plant i ddiwygio'r Cod Ymddygiad wrth Deithio er mwyn iddo adlewyrchu'r cydbwysedd o hawliau a chyfrifoldebau yn

well i'r holl bartïon dan sylw yn cynnwys plant a phobl ifanc, darparwyr trafnidiaeth, ysgolion ac awdurdodau lleol a rhieni.

- Sicrhau bod unrhyw adolygu yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn cael ei hyrwyddo gyda pholisïau gwrthfwlio yr Adran Addysg a Sgiliau.
- Ystyried opsiynau i ddiwygio'r drefn sancsiynau.
- Cymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo a'i ledaenu, pan fydd y Cod Teithio diwygiedig yn barod.

Cafodd y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, sy'n cynnwys yr asesiad risg ar gyfer llwybrau cerdded i'r ysgol ei lansio ar y cyd gan y Comisiynydd Plant a'r Llysgenhadon Gwych ar 17 Mehefin 2014.

Cytunwyd i ddarparu gwerth £5 miliwn o gyllid ar gyfer 30 prosiect newydd Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn y flwyddyn ariannol hon – mae'r prosiectau'n cynnwys croesfannau newydd, mesurau gostegu traffig, llwybrau beiciau, llwybrau troed, cyfleusterau beicio diogel a golau.

Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am adolygiad o ddiogelwch mynediad i ysgolion ar y rhwydwaith cefnffyrdd a bydd yn cyhoeddi rhaglen o welliannau i'w chwblhau cyn y Nadolig.

---

## Trais Domestig

**Mae pryder y Comisiynydd wedi cynyddu am effaith trais domestig ar blant a phobl ifanc. Roedd yr effaith mae byw gyda thrais domestig yn ei gael ar blant yn amlwg yn yr adroddiad 'Bechgyn a Merched yn Codi Llais' a gyhoeddwyd yn 2013. Mae'r Comisiynydd wedi egluro ei bryderon mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth arfaethedig i roi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhyw, yn ogystal â'u codi'n uniongyrchol gyda Gweinidogion. Mae wedi galw ar y Bil i ymateb yn fwy uniongyrchol i anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig o fewn addysg.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**-yn galw ar Lywodraeth Cymru i adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn ei Bil Trais Domestig arfaethedig.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae cwmpas y Bil yn ymestyn i bob dioddefwr, waeth beth fo'u hoedran. Wrth gydnabod yr effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc o ran gweld a phrofi trais a chamdriniaeth o'r fath yn uniongyrchol, nid oes trothwy oedran yn gysylltiedig â'r Bil felly mae plant sy'n gweld a phrofi trais neu gamdriniaeth o'r fath wedi'u cynnwys.

Nod y Mesur yw gwella trefniadau i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; bydd y trefniadau ar gyfer diogelu a chefnogi dioddefwyr hefyd yn berthnasol i blant.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil hwn i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried a bydd Llywodraeth Cymru, wrth lunio Strategaeth Genedlaethol, yn rhoi sylw dyledus i'r CCUHP – ac o dan y Bil hwn bydd rhaid i awdurdodau roi sylw dyledus i'r Strategaeth Genedlaethol wrth baratoi eu strategaethau lleol eu hunain.

Bydd angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen, fel gweithwyr cymdeithasol, sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan y materion hyn, gael digon o hyfforddiant a chymorth i nodi'r ymateb priodol i'r unigolyn sy'n dioddef, sy'n debygol o gynnwys dull cyfannol a fydd yn cynnwys gwasanaethau diogelu ac amddiffyn plant a gwasanaethau arbenigol. Byddwn yn darparu'r hyfforddiant hanfodol hwn drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

<u>Addysg Perthnasoedd Iach</u>
Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni cynigion y Papur Gwyn ar addysg perthnasoedd iach ac i annog ysgolion i fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan tuag at fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae trafodaethau ar droed rhwng y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau dull trawslywodraeth o weithredu Bil Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ac i gryfhau polisi ategol i gyflawni ein blaenoriaethau yn y modd gorau. Byddwn yn ystyried cyhoeddi canllawiau o dan Adran 12 y Bil i gynorthwyo ysgolion i gyflawni'r ymagwedd ysgol gyfan ofynnol fel bod ein pobl ifanc yn deall y cysyniad o berthnasoedd iach.

Hefyd, fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r materion hyn, bydd canllawiau statudol Diogelu Plant mewn Addysg yr Adran Addysg a Sgiliau'n cael eu cryfhau, ynghyd â rôl yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant a Llywodraethwyr Diogelu mewn ysgolion i sicrhau bod agweddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ochr yn ochr â materion diogelu eraill.

O ystyried lefel y cam-drin domestig ymysg pobl ifanc, a natur fregus menywod ifanc, bydd proses "Gofyn a Gweithredu" ar waith mewn ysgolion a cholegau. Dylid cynnig hyfforddiant i gefnogi'r dull hwn ym mhob ysgol a choleg i sicrhau:

- bod staff mewn ysgolion a cholegau'n ymwybodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn gwybod sut i gael cymorth naill ai iddynt eu hunain fel dioddefwyr, eu cydweithwyr neu blant a phobl ifanc;
- y gall cyfran o staff ysgolion a cholegau weithredu ar ôl gweld arwyddion o gam-drin ac ymateb yn effeithiol i bobl ifanc, yn cynnwys darparu mynediad effeithlon i asesiadau risg, cynlluniau diogelwch a chymorth;
- bod yna bwynt ffocws ym mhob ysgol a choleg sy'n gallu cynorthwyo staff i reoli achosion anodd, cynnig mwy o wybodaeth a chymorth i blant a phobl ifanc a hyrwyddo ymwybyddiaeth well o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn lleoliad addysgol.

Agwedd allweddol arall ar yr ymagwedd ysgol gyfan rydym yn ei datblygu yw adolygiad thematig, i'w gyflawni gan Estyn yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17, o'r ymagwedd mae ysgolion yn ei defnyddio i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Blwyddyn academaidd 2016-17 yw'r amser priodol i gynnal adolygiad o'r fath gan y bydd y newidiadau cyfredol wedi cael cyfle i ennill eu plwyf erbyn hynny.

Ymhellach, darparwyd cyllid ychwanegol i Hafan Cymru i ymestyn darpariaeth Rhaglen Sbectrwm o'r hydref hwn. Bydd 50% o ysgolion cynradd ac uwchradd yn derbyn y ddarpariaeth yn y flwyddyn gyntaf o ganlyniad.

Fodd bynnag, ni ellir cyflawni ein cynigion ar wahân i'r agenda addysg ehangach ac felly ni ellir eu cyflawni'n uniongyrchol drwy'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae angen ystyried cynigion o'r fath fel rhan o'r adolygiad annibynnol, ehangach o'r cwricwlwm sy'n cael ei gwblhau gan yr Athro Graham Donaldson ar hyn o bryd, yn ogystal â mentrau polisi eraill a ddarperir gan yr Adran Addysg a Sgiliau, o fewn ei fframwaith deddfwriaethol cyfredol. Ni fyddai'n briodol bwrw ymlaen â'r agenda hon o flaen, ac ar wahân i'r Adolygiad o'r Cwricwlwm.

---

**NOD CRAIDD 7: OSGOI CAEL EU RHOI DAN ANFANTAIS OHERWYDD TLODI**

**Tlodi Plant**

**Mae'r Comisiynydd yn datgan bod angen gwirioneddol i ni fynd ati gyda'n gilydd i flaenoriaethu gweithredu fydd yn sicrhau hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi. Mae'n bryderus, er gwaethaf ymrwymiadau polisi sylweddol, bod un ym mhob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn cartrefi tlawd yn 2013, o'i gymharu ag un ym mhob pedwar pan ddaeth ef yn Gomisiynydd yn 2008.**

**Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Creu Cymunedau Cryf: Symud ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi'. Roedd y Comisiynydd yn falch fod i hwn bwyslais cryfach ar blant a phobl ifanc na Chynllun Gweithredu 2012. Mae hefyd yn croesawu'r sylw a roddwyd i Cymunedau yn Gyntaf, y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg a chyd-gysylltu'r gweithredu ar draws y Llywodraeth.**

**Mae'n parhau i fod yn bryderus nad yw cynnwys tlodi plant mewn cynllun gweithredu tlodi ar gyfer pob oed yn benthyg ei hun i weithredu mewn fframwaith a hawliau plant yn unol â'r CCUHP. Nid oes cyfeiriad uniongyrchol at y CCUHP yn y Cynllun Gweithredu o hyd. Mae'r Comisiynydd yn siomedig nad yw'r llywodraeth wedi ymateb i'w alwad i drechu tlodi plant drwy ddefnyddio dull yn seiliedig ar hawliau, yn unol â dyletswydd y Gweinidog i dalu sylw priodol i'r CCUHP. Mae'n credu'n gryf y byddai hyn yn gwella canlyniadau.**

**Gwahoddodd Llywodraeth Cymru y Comisiynydd hefyd i gyfrannu ei flaenoriaethau o ran gweithredu i drechu tlodi plant. Ymatebodd gyda thair blaenoriaeth:**

- **Addysg, yn enwedig llesiant y disgybl o fewn addysg**
- **Tlodi Bwyd**
- **Mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden**

**Mae'r Comisiynydd yn disgwyl gweld tystiolaeth ddiriaethol y bydd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y blaenoriaethau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf ynghyd â sefydlu strategaethau i fynd i'r afael â nhw.**

**Mae'r Comisiynydd:**

**- yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei strategaeth tlodi plant er mwyn sicrhau ei fod yn ddull sy'n seiliedig ar hawliau plant.**

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

Mae tlodi yn rhwystr mawr i blant a phobl ifanc gyflawni canlyniadau gwell yn eu bywydau, ac mae'r egwyddor hon yn ganolog i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus i'r CCUHP wrth i ni ddatblygu polisïau a rhaglenni i gefnogi plant a phobl ifanc yn hanfodol er mwyn trechu tlodi plant a gwella canlyniadau.

Ar 6 Tachwedd 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn cydnabod bod hawliau plant yn ganolog ar gyfer mynd i'r afael â'r agenda tlodi. Mae'n ymrwymo i gydweithio er mwyn sicrhau bod tlodi plant yn cael ei ystyried wrth ddatblygu ein polisïau a'n rhaglenni drwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yw'r cyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni'r amcanion a nodwyd yn ein Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r amcanion hyn yn pwysleisio'r angen i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd di-waith, i wella sgiliau rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel er mwyn iddyn nhw gael swyddi sy'n talu'n dda, a lleihau anghydraddoldeb sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniad y bobl dlotaf. Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o ble y gallwn ni gael yr effaith fwyaf. Bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn gwneud cyfraniad allweddol i drechu tlodi yng Nghymru drwy sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Er bod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn "gynllun pob oed" mae rhai o'r prif ymrwymiadau a'r targedau allweddol yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys targedau sy'n ymwneud â gwella canlyniadau iechyd a gwybyddol plant yn y blynyddoedd cynnar, gan dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Bydd cyflawni'r targedau pwysig hyn yn gwneud cyfraniad allweddol at alluogi a chefnogi plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel i fanteisio ar eu hawliau.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn cydnabod pwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn cynnwys ymrwymiad penodol i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni i gyflawni targedau y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi nodi tair blaenoriaeth allweddol, o ran gweithredu i drechu tlodi plant: addysg, tlodi plant a mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden. Mae Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar bwyslais cryf ar wella cyrhaeddiad addysgol ymysg disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ymysg disgyblion o gefndiroedd difreintiedig ar hyn o bryd yn un o'r ysgogiadau polisi allweddol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, o ran lleihau tlodi yn y tymor hir. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi nodi mai ei brif flaenoriaeth yw mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a gwella canlyniadau disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Dangosir hyn drwy'r adnoddau sylweddol sy'n cael eu buddsoddi yn y Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgolion Cymru – ac wrth lansio Ailysgrifennu'r Dyfodol ym mis Gorffennaf 2014.

Mae yna fwy a mwy o dystiolaeth yn dangos bod tlodi bwyd yn broblem gynyddol yng Nghymru. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn cynnwys ymrwymiad newydd i ddatblygu dull cydgysylltiedig, ystyrlon o drechu ac atal tlodi bwyd ymysg teuluoedd â phlant. Sefydlwyd gweithgor trawsadrannol yn Llywodraeth Cymru i nodi atebion cynaliadwy i dlodi bwyd, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio a mynd i'r afael â'r bylchau mewn polisi a gweithredu, yn cynnwys cysylltu â gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag effaith diwygio'r system les.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu'n gryf bod chwarae yn elfen bwysig ym mywydau plant a'i fod yn sicrhau manteision i'w hiechyd, hapusrwydd a lles. Ceir tystiolaeth i ddangos bod cyfleoedd chwarae o safon uchel yn gallu cyfrannu at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a'u helpu i fod yn fwy gwydn.

Mae dwy ran adran 11 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi dechrau erbyn hyn. Dechreuwyd ar yr ail ran ym mis Tachwedd 2012 ac roedd yn gofyn i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd yn unol â'r rheoliadau. Dechreuodd ail ran y ddyletswydd ym mis Gorffennaf 2014 ac roedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i'r holl blant yn eu hardaloedd, gan ystyried eu hasesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae. I gyd-fynd â hyn, cyhoeddwyd Cyfarwyddyd Statudol, Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae.

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu dull seiliedig ar dystiolaeth o drechu tlodi yng Nghymru. Bydd gwerthusiad o'n Strategaeth Tlodi Plant gyfredol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014) yn parhau i lywio ein gwaith ar draws y gwahanol adrannau i sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn cael yr effaith orau bosibl ar drechu tlodi a bod y rhai sydd angen cymorth yn cael y budd pennaf. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i adrodd ar berfformiad polisïau a rhaglenni unigol fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, gan sicrhau ffocws penodol (a pharhaus) ar sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

Rydym yn cydnabod bod tlodi yng Nghymru, yn enwedig tlodi plant, yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Nid yw hyn yn anochel nac yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar yr holl ysgogiadau polisi i ddylanwadu ar lefelau tlodi. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am rai o'r ysgogiadau pwysicaf – fel y newidiadau i'r system drethi a budd-daliadau. Bydd yr hinsawdd

economaidd sydd ohoni a’r buddsoddiad a’r twf yng Nghymru yn cael effaith bwysig hefyd ar beth all Llywodraeth Cymru ei gyflawni.

Serch hynny, gall Llywodraeth Cymru wneud cyfraniad pwysig at atal tlodi drwy barhau i ganolbwyntio’n ddiflino ar flynyddoedd cynnar bywyd plentyn, yn enwedig o ran gweithredu i wella cyrhaeddiad addysgol, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chynorthwyo pobl i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Mae lliniaru effeithiau trychinebus y diwygiadau i’r system les a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU hefyd yn allweddol er mwyn cynorthwyo plant a theuluoedd sy’n byw ar aelwydydd incwm isel yn awr. Gwyddom fod ein polisïau a’n strategaethau yn gwneud gwahaniaeth ac rydym wedi ymrwymo i ddilyn agenda ataliol.